Llyfr log Prentisiaeth
Diploma Lefel 2 i Weithwyr Gwallt Proffesiynol

# Gwaith Barbwr



Llyfr log Prentisiaeth
Diploma Lefel 2 i Weithwyr Gwallt Proffesiynol

# Gwaith Barbwr

Enw'r prentis:

Rhif cofrestru City & Guilds:

Dyddiad cofrestru gyda City & Guilds:

Dyddiad ymrestru gyda'r ganolfan:

Enw'r ganolfan:

Rhif y ganolfan:

Cyfeiriad y ganolfan:

Cyswllt y ganolfan:

Enw'r SAM:

Enw’r SAA:

Am City & Guilds
City & Guilds yw prif ddarparydd cymwysterau galwedigaethol y DU, yn cynnig dros 500 o ddyfarniadau ar draws amrywiaeth eang o ddiwydiannau, yn cychwyn ar lefel mynediad hyd at lefelau uchaf cyflawniad proffesiynol. Gyda dros 8,500 o ganolfannau mewn 100 o wledydd, caiff City & Guilds ei gydnabod gan gyflogwyr ledled y byd am ddarparu cymwysterau sy'n cynnig prawf o'r sgiliau y mae eu hangen arnyn nhw er mwyn i'r gwaith gael ei wneud.

Cyfleoedd Cyfartal
Mae City & Guilds yn cefnogi'n llwyr yr egwyddor o gyfleoedd cyfartal ac rydym yn ymrwymedig i fodloni'r egwyddor hon yn ein holl weithgareddau a'n deunydd cyhoeddedig. Mae copi o'n datganiad polisi cyfleoedd cyfartal ar gael ar wefan City & Guilds.

Hawlfraint
Mae cynnwys y ddogfen hon, oni bai y nodir fel arall, yn hawlfraint © City & Guilds Limited ac ni ellir ei chopïo, ei hatgynhyrchu na'i dosbarthu heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw.

Argraffiad cyntaf 2017

ISBN 9780851933917

Noder: Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn hawlfraint © Awdurdod Diwydiannau Gwallt a Harddwch. Cofiwch wirio'r amodau ar gyfer eu copïo gyda Habia.

Cyhoeddiadau
I gael gwybodaeth am ddeunyddiau cefnogi City & Guilds neu i'w harchebu cysylltwch ar 01924 930800 neu centresupport@cityandguilds.com.
Mae galwadau i'n rhifau 01924 yn costio pris mynediad eich cwmni ffôn.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir ar adeg cyhoeddi. Fodd bynnag, caiff cynhyrchion a gwasanaethau City & Guilds eu datblygu a'u gwella'n barhaus a chedwir yr hawl i newid cynhyrchion a gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all City & Guilds dderbyn cyfrifoldeb am golled neu niwed sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

City & Guilds
1 Giltspur Street
Llundain
EC1A 9DD
www.cityandguilds.com

Dyluniad y clawr a'r llyfr gan Select Typesetters Ltd
Golygwyd gan Allison Cooper
Diolch arbennig i Melanie Mitchell, Peter Bennett a Diane Mitchell

# Cynnwys


Cyflwyniad a geiriau defnyddiol 4

Am yr awdur 10

Rhagair - ychydig eiriau gan Lee Stafford 11

Crynodeb o gyflawniad uned 12

Rhestr gyflawn o unedau 13

Olrhain eich cynnydd 14


## Unedau Gorfodol


201: Ymgynghoriad 17

202: Siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen 31

209: Torri gwallt gan ddefnyddio technegau barbwr i greu amrywiaeth o edrychiadau 45

210: Steilio a gorffen gwallt dynion 63

211: Torri blew'r wyneb i siâp 77

212: Darparu gwasanaethau eillio 93


## Rhagor o wybodaeth


Nodweddion a dosbarthiadau gwallt 109

Iechyd a diogelwch a deddfwriaeth arall 110

Arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy 111

Gwerthoedd ac ymddygiadau 112

Rhestr termau 114

# Cyflwyniad a geiriau defnyddiol



Wahl

Croeso i'ch Llyfr Log Prentisiaeth City & Guilds. Mae wedi'i ddylunio i'ch helpu i weithio tuag at eich cymhwyster gwaith barbwr drwy:

- ddangos beth sydd angen i chi ei gyflawni
- eich helpu i gofnodi eich cyflawniadau a thystiolaeth.

Yn y llyfr log hwn, byddwch yn canfod y ffurflenni y byddwch chi a'ch asesydd yn eu defnyddio ar gyfer eich cymhwyster. Byddwch hefyd yn canfod lluniau ac awgrymiadau defnyddiol a mwy gan bobl amlwg o fewn gwaith barbwr - y cyfan wedi'u dylunio i wneud y cymhwyster yn syml i'w ddeall ac yn fwy o hwyl i'w wneud!

Rydyn ni'n siŵr y bydd gennych chi lawer o gwestiynau am eich cymhwyster, a dylai'r cyflwyniad hwn ateb rhai ohonyn nhw. Wrth gwrs, dylai eich asesydd fod wrth law hefyd i esbonio pethau i chi ac i'ch arwain, ond yma mae'r atebion i'r prif gwestiynau fydd gennych yn y cyfnod cynnar hwn.

## Pa gymhwyster ydw i'n ei wneud?

Os ydych chi yng Nghymru neu yn Lloegr rydych chi'n gwneud y Diploma Lefel 2 i Weithwyr Gwallt Proffesiynol - Gwaith Barbwr. Mae'r unedau yn y cymhwyster hwn yn seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Barbwr. Mae hyn yn golygu bod y gwaith y byddwch yn ei wneud i ennill y cymhwyster yn bennaf am sgiliau gwaith barbwr ymarferol a gweithgareddau gwaith go iawn.

## Beth mae angen i mi ei gyflawni?

Mae eich cymhwyster wedi'i rannu'n unedau. Mae pob uned yn trafod gwahanol faes o'ch gwaith fel barbwr. Ar gyfer pob uned y byddwch yn ei chyflawni byddwch yn ennill credydau.

I ennill y cymhwyster mae angen i chi ennill digon o gredydau i gwrdd â strwythur y cymhwyster, sydd wedi'i gynnwys yn yr adran 'Crynodeb o gyflawniad uned'. Mae strwythur y cymhwyster yn cynnwys unedau gorfodol ac unedau dewisol. Mae unedau gorfodol yn rhai y mae'n rhaid i chi eu cwblhau. Mae unedau dewisol hefyd, lle gallwch ddewis yr unedau iawn sy'n cyfateb i'ch diddordebau ac anghenion eich salon neu'ch siop barbwr. I ennill eich cymhwyster rhaid i chi ennill yr isafswm o gredydau ar draws yr unedau gorfodol a'r unedau dewisol.

## Beth sydd mewn uned?

Mae tair prif ran:

- Beth mae'n rhaid i chi ei wneud
- Beth mae'n rhaid i chi ei gwmpasu
- Beth mae'n rhaid i chi ei wybod.

Rhaid i chi gyflawni pob un o'r tair rhan i gwblhau'r uned. Mae pob uned hefyd yn seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC/NOS) ar gyfer Gwaith Barbwr, sy'n disgrifio safon perfformiad (meini prawf perfformiad) y mae'n rhaid i chi eu cyflawni wrth gynnal gweithgareddau yn y gweithle. Maen nhw hefyd yn nodi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y bydd eu hangen arnoch er mwyn gweithio mewn salon neu siop barbwr. Mae'r safonau hyn wedi'u mapio i'r adrannau 'Beth mae'n rhaid i chi ei wneud', 'Beth mae'n rhaid i chi ei gwmpasu' a 'Beth mae'n rhaid i chi ei wybod' yn yr unedau. Mae'r SGC wedi'i fapio i'r canlyniadau a'r meini prawf a restrir yn y llyfrau log, gellir gweld mapio llawn yn llawlyfr y cymhwyster.

Yn eich llyfr log, byddwch yn gweld canlyniadau a meini prawf, yn gyffredinol mae'r canlyniad cyntaf yn cwmpasu meini prawf perfformiad y SGC ac yn rhestru'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud yn ogystal â'r hyn y mae'n rhaid i chi ei gwmpasu. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y daflen cwblhau arsylwi. Mae'r canlyniadau sy'n weddill yn cwmpasu'r gofynion gwybodaeth a dealltwriaeth ac fe'u cynhwysir yn y daflen llofnodi gwybodaeth sydd i'w gweld tua diwedd pob uned. Mae'r adran hon yn darparu'r holl wybodaeth y bydd ei hangen arnoch i baratoi ar gyfer eich asesiadau gwybodaeth ac mae'n cynnwys y meini prawf gwybodaeth a'r ystod wybodaeth. Mae rhagor o fanylion am yr ystod wybodaeth i'w gweld naill ai yn yr adran 'Geiriau defnyddiol' (tudalennau 8-9) neu'r adran 'Rhagor o wybodaeth' (tudalennau 109-116). Mae'r ystodau perfformiad a gwybodaeth hefyd wedi'u rhestru yn adrannau unedau llawlyfr y cymhwyster.



JOICO salon I-Deas, gwallt gan

## Pwy fydd yn penderfynu a ydw i wedi cyrraedd y safonau?

O fewn y safonau hyn rydych chi naill ai'n 'gymwys' neu 'ddim yn gymwys eto'. Mae hyn yn golygu, os nad ydych wedi cael popeth yn iawn pan fyddwch chi'n gwneud rhywbeth, fe gewch gyfle i'w wneud eto ar ôl mwy o ymarfer - cofiwch, mae ymarfer yn arwain at berffeithrwydd! Mae nifer o bobl a fydd yn helpu i benderfynu pryd rydych chi'n gymwys:

1 Eich asesydd
Person sy'n brofiadol iawn ac yn gymwys yn y maes gwaith rydych yn hyfforddi ynddo. Mae'n debygol mai eich tiwtor fydd eich asesydd, neu gall fod yn oruchwyliwr neu'n rheolwr yn eich siop barbwr. Bydd eich asesydd yn goruchwylio'ch gwaith tuag at y cymhwyster o ddydd i ddydd.

2 Sicrhawr Ansawdd Mewnol (SAM/IQA)
Person o fewn eich canolfan sy'n gwirio bod yr holl asesiadau a wneir gan yr aseswyr yn cael eu cynnal i'r safonau cywir.

3 Sicrhawr Ansawdd Allanol (SAA/EQA)
Rhywun o City & Guilds sy'n ymweld â'ch canolfan i wirio bod yr holl asesiadau'n gywir ac i'r un safon â'r rhai a wneir mewn canolfannau eraill. Mae hyn yn sicrhau nad ydych yn gweithio i lefel uwch neu is nag ymgeiswyr mewn canolfannau eraill. Mae Sicrhawyr Ansawdd Allanol hefyd yn gwirio bod eich canolfan yn gweithredu'r cymhwyster yn briodol ac yn deg a bod ganddi'r holl systemau a chyfarpar yn eu lle ar gyfer eich NVQ.



AlenKadr/Shutterstock.com

## Pa mor hir fydd y cymhwyster yn ei gymryd?

Nid oes terfyn amser wedi'i osod gan City & Guilds i chi gwblhau eich Diploma Lefel 2 i Weithwyr Gwallt Proffesiynol - Gwaith Barbwr, ond efallai y bydd gan eich canolfan rai gofynion y byddant yn eu hesbonio i chi.

## Lle ydw i'n mynd os oes angen mwy o wybodaeth arnaf am fy asesiadau a'm cymhwyster?

Mae'r ffynonellau gwybodaeth pwysicaf y bydd eu hangen arnoch wedi'u rhestru isod:

- Eich tiwtor/asesydd yw'r ffynhonnell bwysicaf o wybodaeth am eich cymhwyster.
- Llawlyfr neu brosbectws myfyrwyr eich canolfan.

Ar yr achlysur prin y byddwch yn anghytuno â phenderfyniad asesydd, dylech ddefnyddio gweithdrefn apelio eich canolfan. Gofynnwch i asesydd neu'ch Sicrhawr Ansawdd Mewnol (SAM) i'ch helpu os nad ydych yn siŵr sut i wneud hyn.

Bydd eich canolfan yn cyfeirio unrhyw broblemau heb eu datrys i City & Guilds. Gwnewch nodyn o gyfeiriad gwefan eich canolfan yma:

---

Gwefan City & Guilds (www.cityandguilds.com) neu Wasanaeth Cwsmeriaid City & Guilds (01924 930800). Mae galwadau i'n rhifau 01924 yn costio pris mynediad eich cwmni ffôn.

Gwefan Habia (www.habia.org.uk).




MHFed

## Geiriau defnyddiol

Dyma rai geiriau y gallech eu clywed yn ystod eich cwrs Diploma Lefel 2 i Weithwyr Gwallt Proffesiynol - Gwaith Barbwr. Efallai y byddwch am gyfeirio'n ôl at y dudalen hon os byddwch yn clywed gair ac yn methu cofio beth mae'n ei olygu.

### Cynllun asesu
Cynllun gweithredu a osodwyd gennych chi a'ch asesydd ar ddechrau eich cwrs ac yna ei ddiweddaru wrth i chi symud ymlaen trwy'ch asesiadau. Mae'n cynnwys dyddiadau allweddol ar gyfer casglu tystiolaeth ac ar gyfer adolygu eich cynnydd.

### Asesydd
Person cymwys a phrofiadol mewn gwaith barbwr a fydd yn eich helpu i gynllunio eich gwaith a'ch asesiadau a threfnu eich tystiolaeth. Bydd eich asesydd yn gyfrifol am farnu a ydych yn gymwys a bydd yn rhoi adborth i chi.

### Ymgeisydd
Person sy'n gweithio tuag at gymhwyster, h.y. chi.

### Trefn apelio i ymgeiswyr
System o fewn canolfan sydd wedi'i dylunio i'ch helpu i gael gwirio eich tystiolaeth eto os ydych chi'n anghytuno gyda chanlyniad asesiad. Bydd eich canolfan yn esbonio'r drefn hon i chi pan fyddwch chi'n cychwyn. Gallwch hefyd gael gwybod amdani unrhyw bryd drwy holi eich asesydd neu'ch Sicrhawr Ansawdd Mewnol (SAM).

### Canolfan
Man lle mae hyfforddiant a/neu asesu tuag at gymwysterau'n cael ei wneud; gall fod yn goleg, yn ganolfan hyfforddi neu'n weithle. Dim ond 'canolfannau cymeradwy' sy'n cwrdd â safonau llym sy'n gallu cynnig cymwysterau City & Guilds.

### City & Guilds
Sefydliad dyfarnu ar gyfer gwaith barbwr a llawer o gymwysterau eraill. Mae City & Guilds yn gwirio ac yn cymeradwyo canolfannau, yn gosod ac yn monitro asesiadau ac yn rhoi tystysgrifau i ymgeiswyr.

### Cymwys
Mae hyn yn golygu gallu gwneud eich gwaith yn dda. Rydych chi'n gymwys mewn Diploma Lefel 2 pan fyddwch chi'n dangos y gallwch chi weithio'n gyson i'r safonau gofynnol mewn sefyllfa waith go iawn, a'ch bod chi'n gwybod ac yn deall y ffordd gywir o wneud eich gwaith.

### Tystiolaeth
Yn gyffredinol, mae hyn yn rhywbeth sy'n adeiladu tuag at brawf o'ch cymhwyster. Mewn Diploma Lefel 2 i Weithwyr Gwallt Proffesiynol - Crefft Barbwr, mae angen i chi gasglu tystiolaeth i ddangos eich bod yn gymwys yn eich gwaith.
Mae gwahanol fathau o dystiolaeth, yn amrywio o'ch asesydd yn arsylwi eich gwaith i brawf ysgrifenedig. Mae pob uned yn nodi'r mathau o dystiolaeth y mae angen i chi eu casglu.

### Sicrhawr Ansawdd Allanol (sy'n cael ei alw weithiau'n SAA)
Arbenigwr o City & Guilds sy'n ymweld â chanolfannau i wirio bod pob asesiad yn cael ei wneud yn gywir ac i'r un safon. Maen nhw hefyd yn gwirio bod eich canolfan yn gweinyddu'r cymhwyster yn iawn ac yn deg a bod yr holl systemau a'r cyfarpar yn eu lle.

### Habia (Awdurdod Diwydiannau Trin Gwallt a Therapi Harddwch)
Y corff gosod safonau a gymeradwywyd gan y llywodraeth ar gyfer trin gwallt, therapi harddwch a meysydd cysylltiedig.
Cafodd y safonau ar gyfer eich NVQ (y rhestrau o 'Beth mae'n rhaid i chi ei wneud', 'Beth mae'n rhaid i chi ei gwmpasu' a 'Beth mae'n rhaid i chi ei wybod') eu creu gan arbenigwyr y diwydiant yn gweithio gyda Habia.

### Sicrhawr Ansawdd Mewnol (sy'n cael ei alw weithiau'n SAM)
Person o fewn eich canolfan sy'n gwneud yn siŵr bod yr asesiad yn cael ei gynnal i'r safon gywir a bod cofnodion cywir yn cael eu cadw.

### Arsylwi
Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu gwylio neu dalu sylw i rywbeth yn fanwl iawn. Ar gyfer y dyfarniad hwn, arsylwi yw un o'r prif fathau o dystiolaeth. Bydd eich asesydd yn eich gwylio'n gweithio ac yn barnu a ydych chi'n cwrdd yn gyson â'r safonau cenedlaethol.

### Canlyniad
Mae canlyniad yn nodi beth y dylech chi ei wybod, ei ddeall neu allu ei wneud o ganlyniad i broses o ddysgu.

### Meini prawf perfformiad
Defnyddir y term hwn i ddisgrifio gofynion ymarferol Diploma Lefel 2 i Weithwyr Gwallt Proffesiynol. Mae'r rhain wedi'u mapio i'r canlyniad 'Beth sy'n rhaid i chi ei wneud' a ddangosir yn eich llyfr log. Gellir dod o hyd i'r mapio yn llawlyfr y cymhwyster.

### Portffolio
Y man lle rydych chi'n cadw'r holl dystiolaeth rydych chi'n ei chasglu i ddangos eich bod chi'n gymwys. Fel arfer mae hwn yn ffeil fodrwy lle gallwch chi roi'r dalenni o'r llyfr log hwn sydd â thyllau yn barod.  Mae angen trefnu'ch portffolio yn glir gyda'ch holl dystiolaeth yn cyfeirio at yr unedau.

### Ystod
Mae dau fath o ystod yn eich NVQ: ystod perfformiad ac ystod gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae'r term 'ystod perfformiad' weithiau'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y pethau sydd wedi'u rhestru yn y rhan o'r uned 'Beth mae'n rhaid i chi ei gwmpasu'. Gallwch roi tic yn y meysydd yma o'ch llyfr log yn dilyn arweiniad gan eich asesydd. Mae'r ystod gwybodaeth a dealltwriaeth i'w chanfod yn yr adran 'Rhagor o wybodaeth'. Mae rhannau gydag ystod gwybodaeth i'w gweld mewn print bras yn y rhan o'r uned 'Beth mae'n rhaid i chi ei wybod'. Mae'r ystod gwybodaeth yn cael ei thorri i lawr ymhellach i feysydd gwybodaeth megis deddfwriaeth a restrir yn 'Beth mae'n rhaid i chi ei wybod'. Gallech gael eich profi ar unrhyw faes sydd wedi'i restru yn yr ystod gwybodaeth yn eich asesiad gwybodaeth.

### Safonau (a elwir hefyd yn Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, neu SGC)
Mae'r rhain yn disgrifio'r pethau y mae'n rhaid i gyflogai, neu gyflogai potensial, allu eu gwneud yn gyson mewn sefyllfa waith, yn ogystal â phethau y mae'n rhaid iddyn nhw eu gwybod a'u deall er mwyn gwneud eu gwaith yn gymwys. Mae Habia'n gosod y safonau ar gyfer gwaith barbwr. Mae'r safonau hyn wedi cael eu defnyddio i greu eich cymhwyster.

### Uned (gorfodol a dewisol)
Prif flociau adeiladu eich dyfarniad: mae pob uned yn disgrifio un agwedd o'ch gwaith.

### Galwedigaethol
Mae NVQ yn ddyfarniad galwedigaethol am ei fod yn seiliedig ar sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen arnoch er mwyn gweithio ac adeiladu gyrfa mewn gwaith barbwr.



Pall Mall Barbers

# Am yr awdur

## Adam Sloan

Rydw i wedi bod yn y diwydiant ers 1979, gan ddechrau fy ngyrfa yn gweithio i ’nhad, Adam Sloan Senior, barbwr arobryn a'r mentor gorau y gallai unrhyw driniwr gwallt ifanc ddymuno ei gael. Dysgodd i mi sylfeini fy ngyrfa, i ddiweddaru eich sgiliau bob amser, bod â moeseg gwaith wych a bod gwasanaeth cwsmeriaid yn hollbwysig i yrfa lwyddiannus.

Rydw i wastad wedi bod mewn cariad â'r swydd hon. Mae'r yrfa hon wedi fy ngalluogi i ddod yn artist llwyfan, steilydd sesiwn ac i datblygu DVDs addysgol.
Rwy'n eistedd ar y cyrff rheoleiddio ar gyfer trin gwallt yn City & Guilds ac rwy'n aelod o Gyngor y Barbwyr, gan ymgyrchu'n barhaus am gofrestru gwladol.

Mae gen i bum salon llwyddiannus yn Essex a dwy academi sy'n darparu cymwysterau NVQ Lefel 2 a 3 mewn Trin Gwallt a Gwaith Barbwr. Rydw i wedi bod ar dân erioed dros godi safonau trin gwallt a gwaith barbwr i ddynion.
Arweiniodd hyn fi i ffurfio'r Ffederasiwn Trin Gwallt Dynion (MHFed). Mae'r MHFed wedi bod yn llwyddiant byd-eang, gyda'n casgliadau wedi'u cyhoeddi ledled y byd. Rydym yn perfformio ym mhob sioe gwallt yn y DU, gan weithio ochr yn ochr â Chymdeithas Trin Gwallt Prydain. Rydym yn cofleidio technegau barbwr clasurol mewn sioeau ffasiwn a chasgliadau ffotograffig, gan weithio gyda'r goreuon yn y diwydiant.

Mae wedi bod yn anrhydedd gweithio gyda rhai o'r enwau gorau yn y diwydiant wrth roi'r llyfr log hwn at ei gilydd. Dwi'n dymuno'n dda i chi ac mae fy nghyfrinach i lwyddiant yn y diwydiant gwych hwn yn syml: mae addysg yn allweddol. Cofiwch fod y gwaith mwyaf creadigol yn dechrau trwy lwyddo ar y lefel sylfaen.



# Rhagair

## Ychydig eiriau gan Lee Stafford

Gadewais yr ysgol yn 15 oed heb unrhyw gymwysterau a dechreuais fy ngyrfa trin gwallt yn West End Llundain. Roeddwn i'n teithio pedair awr y dydd i gyrraedd y gwaith ac yn ôl, gan fy mod i'n byw yn Essex, felly roedd fy nyddiau yn hir, fel y gallwch ddychmygu. Ro'n i'n gwneud yr holl waith distadl y mae disgwyl i bob cynorthwyydd ei wneud a doeddwn i ddim yn ennill dim arian gan fod fy holl gyflog yn mynd i dalu am fy nhaith i'r gwaith ac yn ôl.

Pam gwnes i weithio'r holl oriau hynny a gwneud yr holl waith distadl am ddim cyflog?

Fe wnes i hynny am yr un rhesymau y mae pob person ifanc yn ei wneud: yn gyfnewid am addysg ac ysbrydoliaeth. Yn anffodus doedd dim ots o gwbl gan y salon yma. Sylweddolais yn gyflym fod y fasnach yn bell ohoni, felly gadewais ar ôl ychydig fisoedd a sefydlu siop yn ystafell fwyta fy mam, lle treuliais chwe blynedd yn torri gwallt mewn ffordd ddigon amheus.

Fe wnes i addo i fi fy hun, pe bawn i byth mewn sefyllfa un diwrnod i fod yn gyfrifol am addysgu pobl ifanc, y byddwn i'n gwneud pethau'n wahanol iawn.

Felly dechreuais fynychu llawer o seminarau - a dod yn gwbl gaeth i addysg. Wrth i'm gyrfa dyfu, dechreuais gyflwyno fy seminarau fy hun ledled y byd. Roeddwn i'n dod yn well ac yn well fel triniwr gwallt fy hun oherwydd mod i'n fy addysgu fy hun yn gyson er mwyn addysgu fy nhîm. Roedd yn golygu fod pawb ar eu hennill. Erbyn hyn dwi'n berchen ar saith salon a dwi'n cyflogi cannoedd o bobl ifanc - a dwi wedi gwneud pethau'n wahanol iawn o ran eu haddysgu. Peidiwch â chamddeall - dwi'n dal i ddisgwyl i'm pobl ifanc weithio oriau hir, gwneud yr holl swyddi angenrheidiol, a dim ond y cyflog cyfredol dwi'n ei dalu. Ond yr hyn dwi'n ei wneud yn wahanol yw rhoi'n ôl iddyn nhw yr hyn maen nhw'n ei roi i mewn, a mwy, ar gyfer addysgu a hyfforddi, gan fy mod yn credu mai dyna'r cyfaddawd teg a moesol.

Roedd yr hyn a ddechreuodd yn benderfyniad moesol i addysgu fy nghynorthwywyr oherwydd y ffordd y cefais fy nhrin pan oeddwn yn ifanc, yn un o'r penderfyniadau mwyaf a wnes i erioed.

Mae addysg yn ffordd o fyw i mi, a dyna wnaeth fy arwain i sefydlu Lee Stafford Education.

*Lee Stafford*



# Crynodeb o gyflawniad unedau

Trwy lofnodi'r crynodeb hwn o gyflawniad unedau rydym yn cadarnhau bod yr holl feini prawf perfformiad, pob ystod a gwybodaeth hanfodol a gofynion dealltwriaeth ar gyfer yr unedau hyn wedi'u cwblhau a bod y dystiolaeth yn ddilys ac wedi'i chasglu o dan yr amodau penodedig y gofynnir amdanynt ar gyfer ardystiad.

Enw'r prentis:

Rhif cofrestru'r ymgeisydd:

Enw'r ganolfan:

Rhif y ganolfan:

| Canlyniadau'r cymhwyster | Dyddiad | Llofnod Asesydd | Llofnod y prentis | Llofnod SAM (os oes sampl) |
|---|---|---|---|---|
| Unedau Gorfodol | | | | |
| 201: Ymgynghoriad | | | | |
| 202: Siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen | | | | |
| 209: Torri gwallt gan ddefnyddio technegau barbwr i greu amrywiaeth o edrychiadau | | | | |
| 210: Steilio a gorffen gwallt dynion | | | | |
| 211: Torri blew'r wyneb i siâp | | | | |
| 212: Darparu gwasanaethau eillio | | | | |

Llofnod y SAM:

Dyddiad:



Denman

# Rhestr gyflawn o unedau

## Unedau Gorfodol

Rhaid cyflawni pob uned o'r grŵp hwn.

| Rhif yr Uned | Enw'r uned | Lefel | ODDA |
|---|---|---|---|
| 201 | Ymgynghoriad | 2 | 63 |
| 202 | Siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen | 2 | 40 |
| 209 | Torri gwallt gan ddefnyddio technegau barbwr i greu amrywiaeth o edrychiadau | 3 | 180 |
| 210 | Steilio a gorffen gwallt dynion | 2 | 45 |
| 211 | Torri blew'r wyneb i siâp | 2 | 82 |
| 212 | Darparu gwasanaethau eillio | 3 | 110 |



bikeriderlondon/Shutterstock.com

Ar y dudalen hon a'r ddwy dudalen nesaf, gallwch dicio'r blwch pan fyddwch wedi cyflawni:

- pob arsylwad
- pob canlyniad
- pob ‘Beth mae'n rhaid i chi ei gwmpasu’
- pob ‘Gwybodaeth a dealltwriaeth’.

Unwaith y byddwch wedi ticio'r rhain, byddwch yn gwybod eich bod wedi cyflawni'r uned a gall eich asesydd wirio a llofnodi.

Gallwch gyfeirio'n ôl at y tudalennau hyn unrhyw bryd i wirio pa unedau rydych chi wedi'u cyflawni a pha rai sydd ar ôl i'w cyflawni.

Efallai y byddwch yn ei chael hi'n ddefnyddiol cadw golwg ar sut rydych chi'n symud drwy'r unedau.

## Unedau Gorfodol

201: Ymgynghoriad
Arsylwadau 1 ⬭ 2 ⬭ 3 ⬭
Canlyniadau a gyflawnwyd 1 ⬭ 2 ⬭ 3 ⬭ 4 ⬭ 5 ⬭ 6 ⬭
Yr holl 'Beth mae'n rhaid i chi ei gwmpasu' wedi'u cyflawni ⬭
Yr holl 'Wybodaeth a dealltwriaeth' wedi'u cyflawni ⬭

Llofnod: ______________________ Dyddiad: ______________

202: Siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen
Arsylwadau 1 ⬭ 2 ⬭
Canlyniadau a gyflawnwyd 1 ⬭ 2 ⬭ 3 ⬭ 4 ⬭
Yr holl 'Beth mae'n rhaid i chi ei gwmpasu' wedi'u cyflawni ⬭
Yr holl 'Wybodaeth a dealltwriaeth' wedi'u cyflawni ⬭

Llofnod: ______________________ Dyddiad: ______________

209: Torri gwallt gan ddefnyddio technegau barbwr i greu amrywiaeth o edrychiadau
Arsylwadau 1 ⬭ 2 ⬭ 3 ⬭ 4 ⬭ 5 ⬭
Canlyniadau a gyflawnwyd 1 ⬭ 2 ⬭ 3 ⬭ 4 ⬭ 5 ⬭ 6 ⬭ 7 ⬭
Yr holl 'Beth mae'n rhaid i chi ei gwmpasu' wedi'u cyflawni ⬭
Yr holl Wybodaeth a dealltwriaeth wedi'u cyflawni ⬭
Llofnod: Dyddiad:

______________________ ______________




Shave Doctor

210: Steilio a gorffen gwallt dynion
Arsylwadau 1 ⬭ 2 ⬭
Canlyniadau a gyflawnwyd 1 ⬭ 2 ⬭ 3 ⬭ 4 ⬭
Yr holl 'Beth mae'n rhaid i chi ei gwmpasu' wedi'u cyflawni ⬭
Yr holl 'Wybodaeth a dealltwriaeth' wedi'u cyflawni ⬭

Llofnod: Dyddiad:

---

211: Torri blew'r wyneb i siâp
Arsylwadau 1 ⬭ 2 ⬭ 3 ⬭ 4 ⬭ 5 ⬭
Canlyniadau a gyflawnwyd 1 ⬭ 2 ⬭ 3 ⬭ 4 ⬭ 5 ⬭ 6 ⬭
Yr holl 'Beth mae'n rhaid i chi ei gwmpasu' wedi'u cyflawni ⬭
Yr holl 'Wybodaeth a dealltwriaeth' wedi'u cyflawni ⬭

Llofnod: Dyddiad:

---

212: Darparu gwasanaethau eillio
Arsylwadau 1 ⬭ 2 ⬭ 3 ⬭
Canlyniadau a gyflawnwyd 1 ⬭ 2 ⬭ 3 ⬭ 4 ⬭ 5 ⬭ 6 ⬭
Yr holl 'Beth mae'n rhaid i chi ei gwmpasu' wedi'u cyflawni ⬭
Yr holl 'Wybodaeth a dealltwriaeth' wedi'u cyflawni ⬭

Llofnod: Dyddiad:

---



City & Guilds
A City & Guilds Group Business

# Unedau



Santiago Cornejo/Shutterstock.com

# Uned 201:

# Ymgynghoriad

Mae ymgynghori â'ch cleient yn rhan hanfodol o bob gwasanaeth trin gwallt. I ddod yn driniwr gwallt neu'n farbwr llwyddiannus, bydd angen i chi feistroli'r sgiliau hyn ac un o'r rhai pwysicaf yw cyfathrebu da. Mae angen i chi ddysgu am ffordd o fyw, swydd a hobïau'r cleient, yn ogystal â'u nodweddion gwallt a'u dosbarthiad.

Yn yr uned hon, byddwch yn dysgu sut i ddadansoddi unrhyw broblemau gwallt, croen a chroen y pen, cynnal profion ac adnabod heintiau a phlâu a amheuir. Byddwch hefyd yn dysgu sut i roi cyngor ac argymhellion ar ôl-ofal fel y gall y cleient gynnal ei edrychiad rhwng apwyntiadau ac fel y gall brynu cynhyrchion manwerthu unigol addas i'w defnyddio gartref.

Am beth mae’r uned hon?

# Uned 201: Ymgynghoriad

Gorfodol

Mae gan yr uned hon **chwech** o ganlyniadau.

Canlyniad 1
Adnabod gofynion y cleient

Canlyniad 2
Archwilio'r gwallt, y croen a chroen y pen

Canlyniad 3
Rhoi cyngor i'ch cleient a chytuno ar wasanaethau a chynhyrchion

Canlyniad 4
Gwybod sut i adnabod gofynion y cleient

Canlyniad 5
Sut i archwilio'r gwallt, y croen a chroen y pen

Canlyniad 6
Gwybod sut i gynghori eich cleient a chytuno ar wasanaethau a chynhyrchion

**Gwerthoedd ac ymddygiad**
Gwnewch yn siŵr bob amser fod eich cleient yn gysurus a holwch a fydden nhw'n hoffi cael lluniaeth a chylchgrawn i'w ddarllen.

‘Dosbarth cyntaf: yr her ddyddiol a'r wefr o fod yn well heddiw na ddoe.’

Lesley Spears, Moroccan Oil

## Gofynion tystiolaeth

Bydd angen i chi arddangos yn eich gwaith bob dydd eich bod wedi cwrdd â'r safon ar gyfer datblygu sgiliau ymgynghori â chleientiaid. Mae'r safonau'n cynnwys pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud (meini prawf perfformiad), pethau y mae'n rhaid i chi eu cwmpasu (ystod) a phethau y mae'n rhaid i chi eu gwybod (gwybodaeth).

## Beth mae'n rhaid i chi ei wneud

Bydd eich asesydd yn arsylwi'r agweddau hyn o'ch perfformiad fel rhan o'r arsylwadau technegol a byddant yn cael eu cofnodi ar o leiaf dri achlysur. Bydd yr arsylwadau hyn yn cael eu cofnodi ar o leiaf dri achlysur o fewn unrhyw rai o'r unedau canlynol:

- Uned 202 Torri gwallt gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau
- Uned 209 Torri gwallt gan ddefnyddio techneg gwaith barbwr
- Uned 210 Steilio a gorffen gwallt dynion
- Uned 211 Torri blew'r wyneb i siâp
- Uned 212 Gwasanaethau eillio.

Rhaid i chi wneud popeth yn gywir sydd wedi'u rhestru dan 'Beth mae'n rhaid i chi ei wneud' ar y taflenni cwblhau sy'n dilyn. Nid yw efelychiad yn cael ei ganiatáu ar gyfer unrhyw dystiolaeth perfformio yn yr uned hon. Rhaid i chi brofi i'ch asesydd eich bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i allu perfformio'n gymwys mewn perthynas â'r holl eitemau yn yr ystod hwn.

Mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o’r dystiolaeth o’ch perfformiad yn cael ei chasglu o'r arsylwi gaiff ei wneud gan eich asesydd ond efallai y bydd gofyn i chi gynhyrchu tystiolaeth arall, megis tystiolaeth tystion, i gefnogi eich perfformiad os nad yw eich asesydd wedi bod yn bresennol.



bikeriderlondon/Shutterstock.com

# Beth mae'n rhaid i chi ei gwmpasu

## Uned 201: Ymgynghoriad

Ar gyfer pob un o'r datganiadau canlynol, mae ystod o bethau y mae'n rhaid i chi eu cwmpasu. Rhaid i chi ddangos eich bod wedi:

Ymgynghori â'r mathau canlynol o gleientiaid:

- newydd
- rheolaidd

Defnyddio pob un o'r dulliau canlynol o adnabod dymuniadau'r cleientiaid:

- cwestiynu
- arsylwi

Addasu eich cyngor i gymryd i ystyriaeth pob un o'r ffactorau sy'n canlynol cyfyngu neu'n effeithio ar wasanaethau:

- Cyflyrau andwyol gwallt, croen a chroen y pen
- anghydnawsedd gwasanaethau blaenorol a'r cynhyrchion gafodd eu defnyddio
- dosbarthiadau gwallt
- ffordd o fyw'r cleient
- canlyniadau profion

Wedi adnabod neu'n gallu disgrifio'r problemau canlynol:

- heintiau posibl
- plâu posibl

Wedi cymryd i ystyriaeth bob un o'r nodweddion gwallt canlynol:

- dwysedd gwallt
- gwead gwallt
- elastigedd y gwallt
- mandylledd gwallt
- cyflwr gwallt
- patrymau tyfiant gwallt

Wedi defnyddio tri o'r pedwar dosbarthiad canlynol:

- Math 1 - Gwallt Syth
- Math 2 - Gwallt Tonnog
- Math 3 - Gwallt cyrliog
- Math 4 - Gwallt Cyrliog Iawn

Wedi rhoi'r holl gyngor ac argymhellion canlynol:

- Deddfwriaeth gwarchod cwsmeriaid
- sut i gynnal eu hedrychiad
- cyfnod amser rhwng gwasanaethau
- cynhyrchion a gwasanaethau presennol a rhai'r dyfodol

**Rhagor o wybodaeth** Am fanylion ar ddosbarthiadau gwallt ewch i'r adran 'Rhagor o wybodaeth' yng nghefn y llyfr log hwn.



L' Oréal

# Geiriau defnyddiol
## Uned 201: Ymgynghoriad

**Cyflyrau andwyol gwallt, croen a chroen y pen**

Gall ffactorau o'r gwallt, y croen neu groen y pen gyfyngu ar ba wasanaethau y gall cleient eu cael; er enghraifft, os oes gan gleient soriasis, yna efallai na fyddai hi'n ddoeth defnyddio llawer o gemegau llym ar y gwallt.

### Ffordd o fyw'r cleient

Beth maen nhw'n ei wneud fel swydd, eu hobïau a'u diddordebau; hefyd eu hoedran, ac ati.

### Gwybodaeth gyfrinachol

Gall hyn gynnwys agweddau personol ar sgyrsiau gyda chleientiaid a chydweithwyr, cynnwys cofnodion cleientiaid, manylion personol cleientiaid a staff, cyfeiriadau a rhifau ffôn, agweddau ariannol ar y busnes a hyd yn oed clecs.

### Deddfwriaeth diogelu cwsmeriaid

Mae hyn yn diogelu cwsmeriaid rhag arferion gwerthu annheg.

### Nodweddion gwallt

Mae gwallt pob person wedi'i lunio'n wahanol oherwydd patrymau twf gwallt, pa mor doreithiog neu brin yw'r gwallt (dwysedd) ac a yw cudynnau'n fain, yn ganolig neu'n fras (gwead) ac ati.

### Dosbarthiad gwallt

Mae gwallt wedi'i rannu mewn pedwar grŵp gwahanol - gwallt syth, tonnog, cyrliog a chyrliog iawn.

### Deddfwriaeth iechyd a diogelwch

Rheolau a rheoliadau sy'n eich cadw chi a'ch cleientiaid yn ddiogel yn y gwaith.

### Heintiau

Gall haint arwain at groen coch a llidus, neu ddatblygu crawn.  Os ydych yn amau bod gan eich cleient haint, dylech roi gwybod i'ch goruchwyliwr.

### Plâu

Cyflwr lle mae parasitiaid, fel llau pen, yn mynd ar ben a chorff unigolyn ac yna'n byw oddi ar y maetholion a geir yn eu croen, eu gwaed a'u meinweoedd.

### Cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr

Canllawiau penodol sy'n cael eu cyhoeddi gan wneuthurwyr neu gyflenwyr o gynhyrchion neu gyfarpar mewn perthynas â'u defnyddio yn ddiogel ac yn effeithiol.

### Profion

Gall profion fod ar y gwallt neu ar groen y pen. Enghraifft o brawf croen fyddai'r hyn sy'n cael ei wneud cyn gwasanaeth lliw i sicrhau nad oedd gan gleient alergedd i'r cynnyrch; gallai prawf gwallt fod yn wiriad anghydnawsedd i weld a oes unrhyw halwynau metelaidd yn y gwallt.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn egluro prif bwyntiau'r ymgynghoriad cyn symud ymlaen at bwnc arall.



Salon Big Yin

# Dalen cwblhau arsylwi

## Uned 201: Ymgynghoriad

### Beth mae'n rhaid i chi ei wneud

Canlyniad 1

Gallu ymgynghori gyda chleientiaid a'u cynghori

a Paratoi i ymgynghori gyda chleientiaid a'u cynghori

b Defnyddio dulliau gwaith diogel a hylan drwy gydol y gwasanaethau

c Gwneud gwasanaethau ymgynghori

ch Cynnal profion perthnasol

d Darparu cyngor ac argymhellion i gleientiaid

O fewn eich gwaith, rhaid i chi ddangos i'ch asesydd eich bod yn gallu gwneud y canlynol. Byddwch yn cael eich arsylwi nifer o weithiau fel rhan o bob arsylwad technegol (fel canllaw, ar o leiaf dri achlysur).
Rhaid i'r arsylwadau hyn gynnwys gwahanol unedau technegol. Bob tro y byddwch yn cyflawni'r holl bwyntiau sydd wedi'u rhestru bydd eich asesydd yn ticio'r cylch ac yn nodi'r dyddiad.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Arsylwi | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Dyddiad | | | | | |
| Llofnod yr ymgeisydd | | | | | |
| Llofnod Asesydd | | | | | |
| Llofnod SAM (os oes sampl) | | | | | |
| Llofnod SAA (os oes sampl) | | | | | |


Salon Big Yin

**Gwerthoedd ac ymddygiad**
Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r ymgynghoriad, cofiwch fynd dros y gwasanaeth rydych chi'n mynd i'w gwblhau i sicrhau bod eich cleient yn deall yn llwyr.

# Dalen cwblhau arsylwi

## Uned 201: Ymgynghoriad

Cyn ticio'r cylchoedd isod, rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod wedi cyflawni 'Beth mae'n rhaid i chi ei wneud' ar gyfer Canlyniad 1.

### Cleientiaid

Ticiwch y mathau o gleientiaid rydych chi'n ymgynghori â nhw ym mhob arsylwad.

Rhaid i chi ymgynghori â'r ddau fath o gleient.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Newydd | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Rheolaidd | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

### Adnabod

Ticiwch y dull o adnabod dymuniadau cleientiaid a ddefnyddiwyd ym mhob arsylwad. Rhaid i chi ddefnyddio'r ddau fath o ddull adnabod.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Holi | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Arsylwi | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

### Ffactorau sy'n cyfyngu neu'n effeithio ar wasanaethau

Ticiwch y ffactorau yr ydych wedi addasu eich cyngor amdanynt ym mhob arsylwad. Rhaid i chi gymryd pob un o'r ffactorau i ystyriaeth.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflyrau andwyol gwallt, croen a chroen y pen | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Anghydnawsedd gwasanaethau blaenorol a'r cynhyrchion gafodd eu defnyddio | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Dosbarthiad gwallt | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Ffordd o fyw'r cleient | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Canlyniadau profion | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

### Problemau

Ticiwch y problemau sy'n cael eu hadnabod neu eu disgrifio ym mhob arsylwad. Rhaid i chi adnabod neu ddisgrifio'r ddau yn y problemau canlynol.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Heintiau posibl | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Plâu posibl | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

Parhad ar y dudalen nesaf




KMS California

# Dalen cwblhau arsylwi Parhad

## Uned 201: Ymgynghoriad

Nodweddion gwallt

Ticiwch y nodweddion gwallt sydd wedi eu cymryd i ystyriaeth ym mhob arsylwad. Rhaid i chi gymryd pob un o'r nodweddion gwallt i ystyriaeth.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dwysedd gwallt | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Gwead gwallt | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Elastigedd y gwallt | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mandylledd gwallt | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cyflwr gwallt | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Patrymau tyfiant gwallt | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

Dosbarthiad gwallt

Ticiwch y dosbarthiadau gwallt sy'n cael eu gweld ym mhob arsylwad. Rhaid i chi weld tri o'r pedwar dosbarth.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Math 1 - Gwallt Syth | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Math 2 - Gwallt Tonnog | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Math 3 - Gwallt cyrliog | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Math 4 - Gwallt Cyrliog Iawn | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

Cyngor ac argymhellion

Ticiwch y cyngor a'r argymhellion gafodd eu rhoi ym mhob arsylwad. Rhaid i chi roi'r holl gyngor ac argymhellion.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Deddfwriaeth gwarchod cwsmeriaid | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Sut i gynnal eu hedrychiad | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cyfnod amser rhwng gwasanaethau | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cynhyrchion a gwasanaethau presennol a rhai'r dyfodol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Arsylwi | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Dyddiad | | | | | |
| Llofnod yr ymgeisydd | | | | | |
| Llofnod Asesydd | | | | | |
| Llofnod SAM (os oes sampl) | | | | | |
| Llofnod SAA (os oes sampl) | | | | | |

# Ffurflen sylwadau

## Uned 201: Ymgynghoriad

Gall y ffurflen hon gael ei defnyddio ar gyfer sylwadau asesydd/ymgeisydd os oes angen.

| Sylwadau | Dyddiad |
|---|---|
| 1 | |
| | |
| 2 | |
| | |
| 3 | |
| | |



**Gwerthoedd ac ymddygiad**
Yn ystod yr ymgynghoriad, gwnewch yn siŵr eich bod ar lefel llygad gyda'ch cleient. Gallai hyn olygu bod angen i chi eistedd ar stôl dorri ger eich cleient.

AS Inc/Shutterstock.com

# Dalen cwblhau gwybodaeth

## Uned 201: Ymgynghoriad

### Beth mae'n rhaid i chi ei wybod

Canlyniad 4
Gwybod sut i adnabod gofynion y cleient

| | | |
|---|---|---|
| 4.1 | **Disgrifio sut i gyfathrebu'n effeithiol wrth gynnal gwasanaethau ymgynghori** | |
| 4.1 a | pam mae cyfathrebu effeithiol yn bwysig i fusnes eich salon | Gwybodaeth orfodol |
| 4.1 b | sut i ddefnyddio technegau ymgynghori effeithiol wrth gyfathrebu gyda chleientiaid o wahanol gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol, oedran, anableddau a rhywedd | Gwybodaeth orfodol |
| 4.1c | y sgiliau holi a gwrando sydd eu hangen arnoch i ganfod gwybodaeth | Gwybodaeth wedi'i chasglu |
| 4.1 d | pam mae hi'n bwysig annog a chaniatáu amser i gleientiaid holi cwestiynau | Gwybodaeth orfodol |
| 4.1e | y gwahanol fathau o gymhorthion gweledol all helpu gydag ymgynghori â chleientiaid | Gwybodaeth wedi'i chasglu |
| 4.2 | **Esbonio pwysigrwydd dilyn deddfwriaeth berthnasol gyfredol** | |
| 4.2 a | rheolau'r salon ar gadw cyfrinachedd a phreifatrwydd | Gwybodaeth orfodol |
| 4.2 b | pwysigrwydd peidio â gwahaniaethu yn erbyn cleientiaid gydag anableddau a salwch a pham | Gwybodaeth orfodol |

Byddwch yn cael eich asesu ar eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r pwyntiau canlynol. Bydd pob gwybodaeth sydd wedi'i labelu'n orfodol yn cael ei hasesu drwy gyfrwng prawf ar-lein neu papur ysgrifenedig.

Mae rhai meysydd gwybodaeth yn ymddangos mewn mwy nag un uned. Mae'r rhain wedi'u lliwio'n wyrdd ac yn ymddangos mewn prawf gwybodaeth draws uned. Bydd hyn yn cael ei asesu drwy brawf ar-lein, papur ysgrifenedig neu gwestiynau llafar.

Mae rhai meysydd gwybodaeth yn ymddangos yn llwyd ac wedi'u labelu fel gwybodaeth wedi'i chasglu. Ni fydd y meysydd hyn yn ymddangos mewn unrhyw brofion ysgrifenedig neu ar-lein, ond byddant yn cael eu harsylwi pan fyddwch yn cael eich asesu ar eich sgiliau ymarferol.

Parhad ar y dudalen nesaf



AntonioDia/Shutterstock.com

Defnyddio cymhorthion gweledol i helpu i gyfathrebu a chefnogi ymgynghoriad eich cleient.

## Dalen cwblhau gwybodaeth Parhad

# Uned 201: Ymgynghoriad

Canlyniad 5

Sut i archwilio'r gwallt, y croen a chroen y pen

| | | |
|---|---|---|
| **5.1** | Amlinellu'r cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch yn ei rôl ei hun | |
| 5.1a | ein cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth, safonau a chanllawiau perthnasol ar iechyd a diogelwch perthnasol presennol fel Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 a deddfwriaeth berthnasol arall gwybodaeth | Gwybodaeth draws-uned |
| 5.1b | eich cyfrifoldebau a'ch rhesymau dros gynnal eich hylendid personol, amddiffyniad ac ymddangosiad eich hun | Gwybodaeth wedi'i chasglu |
| 5.1c | gweithdrefnau salon a chyfarwyddiadau cynhyrchwyr mewn perthynas â chynnal profion | Gwybodaeth wedi'i chasglu |
| **5.2** | **Disgrifio pryd a sut y mae profion yn cael eu cynnal** | |
| 5.2a | sut a phryd mae profion yn cael eu cynnal ar wallt | Gwybodaeth wedi'i chasglu |
| **5.3** | **Esbonio sut mae canlyniadau profion yn dylanwadu ar wasanaethau** | |
| 5.3 a | pwysigrwydd cynnal profion a'r canlyniadau potensial o fethu â gwneud hynny | Gwybodaeth orfodol |
| 5.4 | **Esbonio pam mae hi'n bwysig adnabod ffactorau allai gyfyngu neu effeithio ar wasanaethau** | |
| **5.4** a | pam mae hi'n bwysig adnabod ffactorau allai gyfyngu neu effeithio ar wasanaethau a chynhyrchion y gellir eu defnyddio | Gwybodaeth orfodol |
| **5.5** | **Esbonio sut y gall ffactorau gyfyngu neu effeithio ar wasanaethau a'r dewis o gynhyrchion** | |
| 5.5 | sut mae ffordd o fyw, cyflyrau andwyol gwallt, croen a chroen y pen, anghydnawsedd gwasanaethau a chynhyrchion blaenorol yn cyfyngu neu'n effeithio ar y gwasanaethau a'r cynhyrchion y gellir eu cynnig i'r cleientiaid | Gwybodaeth orfodol |
| 5.6 | Disgrifio sut i adnabod problemau gwallt, croen a chroen y pen a'r camau angenrheidiol i'w cymryd | |
| 5.6 a | sut i adnabod problemau gwallt, croen a chroen y pen | Gwybodaeth orfodol |
| 5.6b | sut i adnabod heintiau a phlâu posibl sydd angen eu riportio a nodi i bwy y dylid eu riportio | Gwybodaeth orfodol |

Parhad ar y dudalen nesaf

# Dalen cwblhau gwybodaeth Parhad

## Uned 201: Ymgynghoriad

Canlyniad 6

Gwybod sut i gynghori eich cleient a chytuno ar wasanaethau a chynhyrchion

| | | |
|---|---|---|
| **6.1** | **Adnabod y gwahanol nodweddion a dosbarthiadau gwallt** | |
| 6.1a | y gwahanol fathau o nodweddion gwallt | Gwybodaeth orfodol |
| 6.1b | y gwahanol fathau o ddosbarthiadau gwallt | Gwybodaeth orfodol |
| **6.2** | **Disgrifio strwythur sylfaenol y gwallt a'r croen** | |
| 6.2a | strwythur sylfaenol y gwallt a'r croen | Gwybodaeth orfodol |
| **6.3** | **Disgrifio cylch tyfu'r gwallt** | |
| 6.3a | cylch tyfu'r gwallt | Gwybodaeth orfodol |
| **6.4** | **Esbonio'r gwasanaethau a'r cynhyrchion sydd ar gael i'w defnyddio yn eich salon** | |
| 6.4a | y gwasanaethau a'r cynhyrchion sydd ar gael i'w defnyddio yn eich salon | Gwybodaeth wedi'i chasglu |
| **6.5** | **Esbonio eich cyfrifoldebau cyfreithiol wrth ddisgrifio nodweddion a buddion cynhyrchion a gwasanaethau** | |
| 6.5a | eich cyfrifoldebau cyfreithiol wrth ddisgrifio nodweddion a buddion cynhyrchion a gwasanaethau | Gwybodaeth orfodol |

Parhad ar y dudalen nesaf

Cofiwch wirio am heintiau a phlâu posibl. Mae impetigo yn ymddangos fel smotiau crofennog melyn ar y croen ac mae'n heintus dros ben; felly ni ddylid cynnig unrhyw un o wasanaethau'r salon.



Science Photo Library/Dr P. Marazzi

# Dalen cwblhau gwybodaeth Parhad

## Uned 201: Ymgynghoriad

**6.6 Disgrifio strwythur prisio eich salon**

| | | |
|---|---|---|
| 6.6a | strwythur prisio eich salon | Gwybodaeth wedi'i chasglu |

**6.7 Disgrifio sut i gyfrifo'r pris tebygol am wasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| 6.7 | a sut i gyfrifo'r pris tebygol am wasanaethau | Gwybodaeth wedi'i chasglu |

**6.8 Esbonio pwysigrwydd darparu cyngor ac argymhellion i'r cleient**

| | | |
|---|---|---|
| 6.8a | pwysigrwydd rhoi disgwyliadau realistig i'r cleient | Gwybodaeth orfodol |
| 6.8b | pwysigrwydd darparu cyngor ac argymhellion ar y cynhyrchion a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn y salon | Gwybodaeth draws uned |

**Rhagor o wybodaeth**
Am ragor o fanylion ar yr ystod gwybodaeth a dealltwriaeth yn yr uned hon ewch i'r adran 'Rhagor o wybodaeth' yng nghefn y llyfr log hwn.

Ticiwch os mai prawf ar-lein oedd yn profi'r wybodaeth orfodol ◯ Dyddiad

Ticiwch os mai prawf ysgrifenedig oedd yn profi'r wybodaeth orfodol ◯ Dyddiad

Ticiwch os mai prawf ar-lein oedd y prawf gwybodaeth draws uned ◯ Dyddiad

Ticiwch os mai prawf ysgrifenedig oedd y prawf gwybodaeth draws uned ◯ Dyddiad

### Cynghorion ac awgrymiadau

Gofynnwch gwestiynau agored wrth gyfathrebu gyda'ch cleient. Cwestiynau yw'r rhain fel arfer sy'n cychwyn gyda 'sut', 'pryd', 'pwy', 'beth', 'pam'.

# Nodiadau ychwanegol
## Uned 201:

Gall eich asesydd ddefnyddio'r gofod hwn am unrhyw sylwadau ychwanegol a allai fod ganddyn nhw am eich gwaith.

| Sylwadau | Dyddiad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

## Cwblhau'r uned

Rhaid llofnodi'r adran hon unwaith y mae'r uned wedi'i chwblhau.

Rydym yn cadarnhau bod y dystiolaeth hon yn ddilys a bod yr asesiadau wedi'u cynnal o dan amodau penodedig, a bod yr holl feini prawf perfformiad, ystod a gofynion gwybodaeth hanfodol wedi'u bodloni ar gyfer yr uned hon.

Llofnod yr ymgeisydd: ____________________ Dyddiad: __________

Llofnod Asesydd: ____________________ Dyddiad: __________

Llofnod SAM (os oes sampl): ____________________ Dyddiad: __________

Llofnod SAA (os oes sampl): ____________________ Dyddiad: __________



Uned 202:

# Siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen

Y triniaethau siampŵo a chyflyru yw'r gwasanaethau cyntaf y mae'r cleient yn eu profi yn y salon a gallant osod y naws am weddill eu hymweliad. Mae siampŵo a chyflyru cywir yn glanhau'r gwallt a chroen y pen, yn helpu i'w cadw'n iach ac yn hanfodol i sicrhau bod y gwasanaethau trin gwallt sy'n dilyn yn gweithio'n iawn ac yn rhoi'r canlyniadau gorau. Yn yr uned hon, byddwch yn dysgu sut i drin gwahanol gyflyrau gwallt a chroen y pen gan ddefnyddio siampŵau a chyflyrwyr. Byddwch hefyd yn dysgu sut i ddefnyddio symudiadau tylino yn gywir wrth siampŵo a chyflyru gwallt.

# Am beth mae’r uned hon?

## Uned 202 Siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen

Gorfodol

Mae gan yr uned hon **bedwar** o ganlyniadau.

Canlyniad 1
Defnyddio dulliau gwaith diogel wrth siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen

Canlyniad 2
Gwybod sut mae polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn effeithio ar wasanaethau siampŵo, cyflyru a thrin croen y pen

Canlyniad 3
Siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen

Canlyniad 4
Gwybod sut i siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen




## Gofynion tystiolaeth

Rhaid llofnodi'r adran hon unwaith y mae'r uned wedi'i chwblhau.

Rydym yn cadarnhau bod y dystiolaeth hon yn ddilys a bod yr asesiadau wedi'u cynnal o dan amodau penodedig, a bod yr holl feini prawf perfformiad, ystod a gofynion gwybodaeth hanfodol wedi'u bodloni ar gyfer yr uned hon.

Llofnod yr ymgeisydd: Dyddiad:

Llofnod Asesydd: Dyddiad:

Llofnod SAM (os oes sampl): Dyddiad:

Llofnod SAA (os oes sampl): Dyddiad:



Cheynes

# Uned 212:
# Darparu gwasanaethau eillio

Mae eillio rasel hir wedi bod yn draddodiad sydd wedi'i wneud gan farbwyr am ganrifoedd. Mae'n cael ei weld bellach fel set sgiliau 'gorfodol' sy'n ofynnol ar gyfer y barbwr modern. Mae cwsmeriaid gwrywaidd bellach yn treulio mwy o amser ac yn gwario mwy o arian mewn siopau barbwr, a pham na ddylen nhw? Byddwch yn edrych ar y sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth eillio a thylino wyneb proffesiynol. Gall y technegau tylino wyneb y byddwch yn eu cwmpasu wella tôn y croen, cryfhau'r croen a’i adael yn iach, a bydd tylino fel rhan o'r gwasanaeth eillio yn ymlacio'r cleient ac yn rhoi teimlad braf iddo.

Mae'r defnydd o offer eillio proffesiynol a'r wybodaeth gywir am gynhyrchion wrth baratoi'r croen am bob cam o'r gwasanaeth yn hanfodol o bob barbwr! Mae'n hanfodol cynnal lefel uchel o iechyd a diogelwch a hylendid wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn. Byddwch yn broffesiynol a chyfathrebu gyda'r cleient drwy'r amser.

Am beth mae'r uned hon?

# Uned 212: Darparu gwasanaethau eillio

Gorfodol

Mae gan yr uned hon **chwech** o ganlyniadau.

Canlyniad 1
Defnyddio dulliau gwaith diogel wrth baratoi'r gwallt a'r croen ar gyfer eillio

Canlyniad 2
Deall sut mae iechyd a diogelwch yn effeithio ar wasanaethau eillio

Canlyniad 3
Paratoi'r gwallt a'r croen ar gyfer eillio

Canlyniad 4
Eillio gwallt a rhoi cynhyrchion gorffen

Canlyniad 5
Gwybod sut i baratoi'r gwallt a'r croen ar gyfer eillio

Canlyniad 6
Gwybod sut i eillio gwallt a rhoi cynhyrchion gorffen



## Gofynion tystiolaeth

Rhaid i chi ddangos yn ymarferol yn eich gwaith bob dydd eich bod wedi cwrdd â'r safon ar gyfer eillio. Mae'r safonau'n cynnwys pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud (meini prawf perfformiad), pethau y mae'n rhaid i chi eu cwmpasu (ystod) a phethau y mae'n rhaid i chi eu gwybod (gwybodaeth).

## Beth mae'n rhaid i chi ei wneud

Bydd eich asesydd yn arsylwi'r agweddau hyn o'ch perfformiad ar dri achlysur. Rhaid i chi wneud popeth yn gywir sydd wedi'u rhestru dan 'Beth mae'n rhaid i chi ei wneud' ar y taflenni cwblhau sy'n dilyn.

Nid yw efelychiad yn cael ei ganiatáu ar gyfer unrhyw dystiolaeth perfformio yn yr uned hon. Rhaid i chi brofi i'ch asesydd eich bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i allu perfformio'n gymwys mewn perthynas â'r holl eitemau yn yr ystod hwn.

Mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth o'ch perfformiad yn cael ei chasglu o'r arsylwi gaiff ei wneud gan eich asesydd ond efallai y bydd gofyn i chi gynhyrchu tystiolaeth arall, megis tystiolaeth tystion, i gefnogi eich perfformiad os nad yw eich asesydd wedi bod yn bresennol.

"Wrth roi'r cleient i eistedd yn y gadair ar ôl y gwasanaeth ymlaciol hwn, gwnewch hynny'n araf deg fel nad yw'r gwaed yn rhuthro i ben y cleient, gan orffen gwasanaeth gwych."

Chris Muskett, BigYin Gents Division

Anneka/Shutterstock.com

# Beth mae'n rhaid i chi ei gwmpasu

## Uned 212: Darparu gwasanaethau eillio

Ar gyfer pob un o'r datganiadau canlynol, mae ystod o bethau y mae'n rhaid i chi eu cwmpasu. Rhaid i chi ddangos eich bod wedi:

Defnyddio pob un o'r gwasanaethau eillio canlynol:

- eillio llawn
- eillio rhannol
- amlinellau barfau

Defnyddio pob un o'r mathau o offer a chyfarpar canlynol:

- raseli llafn agored, gyda llafnau tafladwy
- menig
- brwshys eillio
- sbyngau

Cymryd yr holl ffactorau canlynol i ystyriaeth:

- dosbarthiad gwallt
- nodweddion gwallt
- cyflyrau croen andwyol
- nodweddion anarferol
- elastigedd croen
- amlin wyneb
- tyllau i'r wyneb
- dymuniadau'r cleient

Defnyddio tri o'r pedwar cynnyrch cyn-eillio canlynol:

- glanhäwr
- sgrwb/ diblisgwr
- hufen
- olew

Defnyddio tri o'r pedwar cynnyrch seboni canlynol:

- hufenau
- olewau
- gel
- sebon

Defnyddio'r ddwy dechneg seboni canlynol:

- rhoi gyda brwsh
- rhoi drwy dylino

Defnyddio tair o'r pedair techneg eillio canlynol:

- tensiynu croen
- raselu llaw flaen
- raselu gwrthlaw
- eillio sbwng

Defnyddio pob un o'r technegau tylino wyneb canlynol:

- effleurage
- petrissage
- tapotement

Defnyddio pob un o'r cynhyrchion gorffen canlynol:

- trwythau tynhaol
- hufen lleithio
- balm ôl-eillio
- powdwr

Rhoi'r holl gyngor ac argymhellion canlynol:

- sut i gynnal eu hedrychiad
- cyfnod amser rhwng gwasanaethau
- cynhyrchion a gwasanaethau presennol a rhai'r dyfodol
- gofal croen



Eugenio Marongiu/Shutterstock.com

**Gwerthoedd ac ymddygiad**

Yn ystod yr ymgynghoriad, gwnewch yn siŵr eich bod ar lefel llygad gyda'ch cleient. Gallai hyn olygu bod angen i chi eistedd ar stôl dorri ger eich cleient.

# Geiriau defnyddiol

## Uned 212: Darparu gwasanaethau eillio

**Trwyth tynhaol**
Cynnyrch megis hylif ôl-eillio sy'n lleddfu, yn glanhau ac yn cau mandyllau'r croen.



**Raselu gwrthlaw**
Wynebwch y llafn i'r cyfeiriad cyferbyniol i chi a throwch eich llaw wyneb i waered.

**Raselu llaw flaen**

Daliwch y rasel gyda'r bawd wedi'i osod ar y tu mewn i'r llafn gyda'r llafn yn wynebu i lawr.

**Powdwr**
Caiff powdwr talcwm ei ddefnyddio i dawelu'r croen ac i amsugno gweddill y lleithder a'r olew.



**Tensiynu croen**
Ymestyn y croen i ganiatáu i'r llafn symud yn esmwyth dros y croen.

**Eillio sbwng**
Yn cael ei wneud ar farf cwrs ystyfnig yn unig. Rhowch sbwng glân, di-haint mewn dŵr poeth a'i fwytho dros y croen yn union cyn yr eillio.

**Tapotement**
Ffurf o dylino wyneb. Mae'n adfywio ac yn gwella cylchrediad meinwe cyhyrol yr wyneb. Mae'n cael ei wneud drwy ddefnyddio ymylon y bysedd neu'r dwylo gyda symudiadau tapio ysgafn.



Os na fyddwch chi'n rhoi tywel oer ar yr wyneb, fyddwch chi ddim yn cau'r mandyllau a gall arwain at risg o haint.

AntonioDia/Shutterstock.com

"Mae tywel poeth yn fwy na theimlad ymlaciol. Mae yno i feddalu'r blewiach a gwneud y croen yn barod i dderbyn yr hufen eillio. Cofiwch, mae eilliadau'n bleser moethus ond mae angen bod rheswm y tu cefn i bob un o'r prosesau."

Pall Mall Barbers

Dalen cwblhau arsylwi

## Uned 212: Darparu gwasanaethau eillio

### Beth mae'n rhaid i chi ei wneud

Canlyniad 1

Gallu darparu gwasanaethau eillio

a Paratoi ar gyfer gwasanaethau eillio

b Defnyddio dulliau gwaith diogel a hylan drwy gydol y gwasanaethau

c Ymgynghori gyda chleientiaid i gadarnhau'r olwg a ddymunir

ch Dewis cynhyrchion, offer a chyfarpar addas

d Gwneud gwasanaethau eillio

dd Darparu cyngor ac argymhellion i gleientiaid ar y gwasanaeth(au) sy'n cael eu darparu

O fewn eich gwaith, rhaid i chi ddangos i'ch asesydd eich bod yn gallu gwneud y canlynol. Cewch eich arsylwi sawl gwaith (fel canllaw, o leiaf dair gwaith). Bob tro y byddwch yn cyflawni'r holl bwyntiau sydd wedi'u rhestru bydd eich asesydd yn ticio'r cylch ac yn nodi'r dyddiad.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Arsylwi | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Dyddiad | | | | | |
| Llofnod yr ymgeisydd | | | | | |
| Llofnod Asesydd | | | | | |
| Llofnod SAM (os oes sampl) | | | | | |
| Llofnod SAA (os oes sampl) | | | | | |



AntonioDiaz/Shutterstock.com

Dylai'r broses eillio fod yn dawel ac ymlaciol, gan ddefnyddio olewau hanfodol i ymlacio'r cleient.

"Anaml iawn y bydd dynion yn tretio eu hunain. Os ydyn nhw wedi dewis cael eilliad gwlyb gyda chi yna dylech chi sicrhau eich bod yn rhoi gwasanaeth moethus, traddodiadol a chofiadwy iddyn nhw. Gwnewch yn siŵr fod y gwasanaeth yn un ymlaciol ac heb ei ruthro."

Pall Mall Barbers

# Dalen cwblhau arsylwi Parhad

## Uned 212: Darparu gwasanaethau eillio

Cyn ticio'r cylchoedd isod, rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod wedi cyflawni 'Beth mae'n rhaid i chi ei wneud' ar gyfer Canlyniad 1.

**Gwasanaethau eillio** — Ticiwch y gwasanaethau eillio gafodd eu defnyddio ym mhob arsylwad. Rhaid i chi ddefnyddio'r holl wasanaethau eillio.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Eillio llawn | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Eillio rhannol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Amlinellau barfau | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

**Offer a chyfarpar** — Ticiwch yr offer a'r cyfarpar gafodd eu defnyddio ym mhob arsylwad. Rhaid i chi ddefnyddio pob un o'r mathau o offer a chyfarpar.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Raseli llafn agored, gyda llafnau tafladwy | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Menig | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Brwshys eillio | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Sbyngau | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

Parhad ar y dudalen nesaf




Denman

**Gwerthoedd ac ymddygiad**
Rhowch yr wybodaeth sydd ei hangen ar y cleient am y gwasanaethau a'r cynhyrchion sy'n cael eu cynnig gan y salon. Rhowch gyngor bob amser i'r cleient ar gynhyrchion ôl-ofal a gofal croen ar gyfer ei groen.

# Dalen cwblhau arsylwi Parhad

## Uned 212: Darparu gwasanaethau eillio

**Ffactorau**

Ticiwch y ffactorau sydd wedi eu cymryd i ystyriaeth ym mhob arsylwad. Rhaid i chi gymryd pob un o'r ffactorau i ystyriaeth.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarthiad gwallt | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Nodweddion gwallt | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cyflyrau croen niweidiol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Nodweddion anarferol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Elastigedd croen | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Amlin wyneb | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Tyllau i'r wyneb | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Dymuniadau'r cleient | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

**Cynhyrchion cyn eillio**

Ticiwch y cynhyrchion cyn-eillio gafodd eu defnyddio ym mhob arsylwad. Rhaid i chi ddefnyddio tri o'r pedwar cynnyrch.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Glanhäwr | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Sgrwb/diblisgwr | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Hufen | | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Olew | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

**Cynhyrchion seboni**

Ticiwch y technegau seboni gafodd eu defnyddio ym mhob arsylwad. Rhaid i chi ddefnyddio tri o'r pedwar cynnyrch seboni.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hufenau | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Olewau | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Gel | | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Sebon | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

Parhad ar y dudalen nesaf

### Cynghorion ac awgrymiadau

Wrth dynnu'r tywel, symudwch y tywel gyda symudiad 'dabio' er mwyn peidio achosi enynfa i’r croen.

# Dalen cwblhau arsylwi Parhad

## Uned 212: Darparu gwasanaethau eillio

**Technegau seboni**

Ticiwch y technegau seboni gafodd eu defnyddio ym mhob arsylwad.
Rhaid i chi ddefnyddio pob un o'r technegau seboni.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhoi gyda brwsh | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Rhoi drwy dylino | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

**Technegau eillio**

Ticiwch y technegau eillio gafodd eu defnyddio ym mhob arsylwad.
Rhaid i chi ddefnyddio tair o'r pedair techneg eillio.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tensiynu croen | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Raselu llaw flaen | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Raselu gwrthlaw | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Eillio sbwng | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

**Technegau tylino wyneb**

Ticiwch y technegau tylino wyneb gafodd eu defnyddio ym mhob arsylwad.
Rhaid i chi ddefnyddio pob un o'r technegau tylino wyneb.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Effleurage | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Petrissage | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Tapotement | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

**Cynhyrchion gorffen**

Ticiwch y cynhyrchion gorffen gafodd eu defnyddio ym mhob arsylwad.
Rhaid i chi ddefnyddio pob un o'r cynhyrchion gorffen.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trwythi tynhaol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Hufen lleithio | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Balm ôl-eillio | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Powdwr | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

Parhad ar y dudalen nesaf

# Dalen cwblhau arsylwi Parhad

## Uned 212: Darparu gwasanaethau eillio

Cyngor ac argymhellion

Ticiwch y cyngor a'r argymhellion gafodd eu rhoi ym mhob arsylwad.
Rhaid i chi roi'r holl gyngor ac argymhellion.

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sut i gynnal eu hedrychiad | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cyfnod amser rhwng gwasanaethau | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cynhyrchion a gwasanaethau presennol a rhai'r dyfodol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Gofal croen | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

| | 1 | 2 | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Arsylwi | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Dyddiad | | | | | |
| Llofnod yr ymgeisydd | | | | | |
| Llofnod Asesydd | | | | | |
| Llofnod SAM (os oes sampl) | | | | | |
| Llofnod SAA (os oes sampl) | | | | | |

“Mae'r brwsh eillio yn offeryn sy'n cael ei gamddeall. Mae'n helpu i godi'r blewiach ac yn caniatáu ar gyfer eilliad ffantastig. Siaradwch drwy pam rydych chi'n gwneud pob rhan o'r eilliad, er mwyn i chi addysgu eich cwsmer yn ogystal â rhoi gwasanaeth gwych iddyn nhw. Ceisiwch ddefnyddio gwallt mochyn daear blaen arian fel sydd ar frwsh eillio Fitzrovia gan Pall Mall Barbers.”

Pall Mall Barbers



Pall Mall Barbers

# Ffurflen sylwadau

## Uned 212: Darparu gwasanaethau eillio

Gall y ffurflen hon gael ei defnyddio ar gyfer sylwadau asesydd/ymgeisydd os oes angen.

| Sylwadau | Dyddiad |
| --- | --- |
| 1 | |
| | |
| 2 | |
| | |
| 3 | |
| | |



Ondine C/Shutterstock.com

# Dalen cwblhau gwybodaeth

## Uned 212: Darparu gwasanaethau eillio

### Beth mae'n rhaid i chi ei wybod

Canlyniad 2
Deall sut mae iechyd a diogelwch yn effeithio ar wasanaethau eillio

| | | |
|---|---|---|
| 2.1 | **Esbonio cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch yn eich rôl eich hun** | |
| 2.1a | eich cyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch fel y'u diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth penodol sy'n trafod rôl eich swydd | Gwybodaeth draws uned |
| 2.1b | yr amrywiaeth o ddillad amddiffynnol ddylai fod ar gael i gleientiaid | Gwybodaeth wedi'i chasglu |
| 2.1c | pwysigrwydd hylendid personol, amddiffyniad ac ymddangosiad wrth gynnal iechyd a diogelwch yn eich gweithle | Gwybodaeth draws uned |
| 2.2 | **Disgrifio'r peryglon potensial a'r risgiau posibl all ddigwydd yn y gweithle ac effeithio ar wasanaethau** | |
| 2.2a | y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli yn eich gweithle a'r arferion gweithio diogel y mae'n rhaid i chi eu dilyn | Gwybodaeth draws uned |
| 2.3 | Disgrifio dulliau ac arferion gwaith diogel a hylan y mae'n rhaid eu dilyn drwy gydol y gwasanaethau | |
| 2.3a | gofynion eich salon ar gyfer paratoi'r cleient | Gwybodaeth wedi'i chasglu |
| 2.3b | pam mae hi'n bwysig defnyddio menig tafladwy wrth eillio | Gwybodaeth orfodol |
| 2.3c | sut y gall osgo eich cleient a'ch osgo eich hun effeithio ar y canlyniad a ddymunir a lleihau blinder a'r risg o anaf | Gwybodaeth draws uned |
| 2.3d | pwysigrwydd defnyddio'r math iawn o gadair barbwr | Gwybodaeth orfodol |
| 2.3e | yr ystyriaethau diogelwch y mae'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth wrth eillio blew'r wyneb | Gwybodaeth wedi'i chasglu |
| 2.3 f | pam mae hi'n bwysig gosod eich offer eillio ar gyfer hwylustod eu defnyddio | Gwybodaeth orfodol |
| 2.3g | y gwahanol fathau o ddulliau gweithio sy'n hyrwyddo arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy | Gwybodaeth draws uned |
| 2.3h | y dulliau cywir o waredu gwastraff | Gwybodaeth draws uned |
| 2.4 | **Esbonio pwysigrwydd atal traws-heintiad a phlâu** | |
| 2.4a | pam mae hi'n bwysig osgoi traws-heintiad a phlâu | Gwybodaeth draws uned |

Byddwch yn cael eich asesu ar eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r pwyntiau canlynol. Bydd yr holl wybodaeth sydd wedi'i nodi'n orfodol yn cael ei hasesu drwy brawf ar-lein neu bapur ysgrifenedig.

Mae rhai meysydd gwybodaeth yn ymddangos mewn mwy nag un uned. Mae'r rhain wedi'u lliwio'n wyrdd ac yn ymddangos mewn prawf gwybodaeth traws unedau. Bydd hyn yn cael ei asesu drwy brawf ar-lein, papur ysgrifenedig neu gwestiynau llafar.

Mae rhai meysydd gwybodaeth yn ymddangos yn llwyd ac wedi'u labelu fel gwybodaeth wedi'i chasglu. Ni fydd y meysydd hyn yn ymddangos mewn unrhyw brofion ysgrifenedig neu ar-lein, ond byddant yn cael eu harsylwi pan fyddwch yn cael eich asesu ar eich sgiliau ymarferol.

| | |
|---|---|
| 2.4b | pam mae hi'n bwysig cadw eich ardal waith yn lân a thaclus<br>Gwybodaeth draws uned |
| 2.4c | dulliau glanhau, diheintio a sterileiddio sy'n cael eu defnyddio<br>Gwybodaeth draws uned |
| 2.4d | dulliau o weithio'n ddiogel ac yn hylan sy'n lleihau'r risg o draws-heintiad a phlâu<br>Gwybodaeth draws uned |

Parhad ar y dudalen nesaf

# Dalen cwblhau gwybodaeth

## Uned 212: Darparu gwasanaethau eillio

Canlyniad 5
Gwybod sut i baratoi'r gwallt a'r croen ar gyfer eillio

| | | |
|---|---|---|
| 5.1 | **Esbonio'r ffactorau allai ddylanwadu ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu** | |
| 5.1 a | y ffactorau y mae'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth cyn ac yn ystod y gwasanaeth eillio | Gwybodaeth orfodol |
| 5.1 b | pryd i beidio eillio | Gwybodaeth orfodol |
| 5.2 | **Disgrifio'r defnydd cywir o gyfarpar ac offer torri a chynnal a chadw arferol ohonynt** | |
| 5.2 a | y mathau o raseli llafn agored gyda llafnau tafladwy sydd ar gael i'w defnyddio'n broffesiynol | Gwybodaeth orfodol |
| 5.2b | sut i baratoi rasel llafn agored gyda llafn tafladwy ar gyfer ei ddefnyddio | Gwybodaeth wedi'i chasglu |
| 5.3 | **Esbonio pam mae hi'n bwysig paratoi'r wyneb a blew'r wyneb cyn eillio** | |
| 5.3a | sut i baratoi a defnyddio cynhyrchion seboni'n gywir | Gwybodaeth wedi'i chasglu |
| 5.4 | **Esbonio strwythur a swyddogaeth y croen** | |
| 5.4 a | strwythur a swyddogaeth y croen | Gwybodaeth orfodol |
| 5.5 | **Disgrifio sut i adnabod anhwylderau croen y pen a'r wyneb** | |
| 5.5 a | anhwylderau croen y pen a'r wyneb sy'n gyffredin yn effeithio ar ddynion a sut i'w hadnabod | Gwybodaeth orfodol |
| 5.6 | **Esbonio sut mae'r gwaith o seboni yn effeithio ar y croen a'r gwallt** | |
| 5.6 a | pwysigrwydd seboni a'r swyddogaeth y mae'n ei gyflawni ar y croen a'r gwallt | Gwybodaeth orfodol |
| 5.7 | **Esbonio effaith gwres ar wallt a'r croen** | |
| 5.7 a | effaith gwres ar wallt a'r croen | Gwybodaeth orfodol |
| 5.8 | **Esbonio effeithiau torri gwallt yn agos at y croen yn barhaus** | |
| 5.8 a | y perygl potensial bod gwallt yn mewndyfu o ganlyniad i eillio agos parhaus | Gwybodaeth orfodol |
| 5.9 | **Esbonio sut mae heneiddio a ffactorau amgylcheddol yn effeithio ar groen yr wyneb a ffyrfder cyhyrau** | |
| 5.9 a | sut y mae'r broses heneiddio naturiol yn effeithio ar groen yr wyneb a ffyrfder cyhyrau | Gwybodaeth orfodol |
| 5.9b | sut mae ffactorau amgylcheddol a ffordd o fyw yn effeithio ar gyflwr y croen | Gwybodaeth orfodol |

Parhad ar y dudalen nesaf

# Dalen cwblhau gwybodaeth Parhad

## Uned 212: Darparu gwasanaethau eillio

| | | |
|---|---|---|
| Canlyniad 6<br>Gwybod sut i eillio gwallt a rhoi cynhyrchion gorffen | | |
| 6.1 | **Esbonio pwysigrwydd cwestiynu cleientiaid cyn ac yn ystod gwasanaethau** | |
| 6.1a | pwysigrwydd cadarnhau gyda'ch cleient yr edrychiad y cytunwyd arno yn ystod yr ymgynghoriad cyn dechrau eillio | Gwybodaeth wedi'i chasglu |
| 6.2 | **Esbonio pam mae hi'n bwysig paratoi'r wyneb a blew'r wyneb cyn eillio** | |
| 6.2 a | pryd a pham mae hi'n angenrheidiol lleihau hyd barf cyn eillio | Gwybodaeth orfodol |
| 6.3 | **Esbonio pwysigrwydd defnyddio techneg gywir yn ystod gwasanaethau eillio** | |
| 6.3a | sut i gyflawni gwahanol dechnegau eillio | Gwybodaeth wedi'i chasglu |
| 6.3b | pam mae angen i'r croen gael ei densiynu yn ystod y broses eillio | Gwybodaeth orfodol |
| 6.3c | pwysigrwydd gweithio mewn ffordd sy'n cynnal tymheredd cywir y croen drwy gydol y broses eillio | Gwybodaeth orfodol |
| 6.3 d | pwysigrwydd addasu technegau eillio mewn perthynas â chyfeiriad tyfiant y gwallt | Gwybodaeth orfodol |

Parhad ar y dudalen nesaf

"Eilliwch bob amser gyda'r graen ar yr eillio cyntaf. Mae hyn yn rhwystro llosg rasel, gwaedu ac enynfa i'r cleient. Dylai'r croen gael ei ymestyn yn ofalus i osgoi unrhyw riciau neu doriadau."

Pall Mall Barbers



Dmytro Zinkevych

# Uned 212: Darparu gwasanaethau eillio

| | | |
|---|---|---|
| 6.3 e | pryd a pham defnyddio technegau brwsio a thylino i roi cynhyrchion seboni | Gwybodaeth orfodol |
| 6.3 f | pryd a pham defnyddio eillio sbwng Gwybodaeth orfodol | Gwybodaeth orfodol |
| 6.3 g | y rhesymau dros ac effeithiau defnyddio tywelion claear ar ôl eillio | Gwybodaeth orfodol |
| 6.4 | **Esbonio manteision defnyddio amrywiaeth o dechnegau tylino wyneb wrth ddarparu gwasanaethau eillio** | |
| 6.4 a | pam na ddylid defnyddio tywelion oer os yw'r wyneb am gael ei dylino | Gwybodaeth orfodol |
| 6.4b | sut i wneud y technegau tylino yn yr ystod | Gwybodaeth wedi'i chasglu |
| 6.4 c | manteision ac effeithiau tylino wyneb | Gwybodaeth orfodol |
| 6.4 d | sut a pham y dylai technegau tylino amrywio ar wahanol rannau o'r wyneb | Gwybodaeth orfodol |
| 6.5 | **Disgrifio'r ystod o gynhyrchion gorffen a'r effeithiau y maen nhw'n eu cael ar y croen** | |
| 6.5 a | y mathau o gynhyrchion gorffen sydd ar gael i'w defnyddio a'u heffeithiau ar y croen | Gwybodaeth orfodol |
| 6.6 | **Nodi'r mathau o broblemau all ddigwydd yn ystod y gwasanaethau** | |
| 6.6 a | problemau sy'n gallu digwydd yn ystod y broses eillio megis eillio blew yn rhy agos, niwed i groen eich cleient a'ch croen eich hun a ffyrdd o ddatrys problemau o'r fath | Gwybodaeth orfodol |
| 6.7 | **Esbonio pwysigrwydd darparu cyngor ac argymhellion i'r cleient ar y gwasanaeth(au) sy'n cael eu darparu a'r cynhyrchion sydd ar gael** | |
| 6.7a | pwysigrwydd darparu cyngor ac argymhellion ar y cynhyrchion a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn y salon | Gwybodaeth draws uned |

**Rhagor o wybodaeth**
Am ragor o fanylion ar yr ystod gwybodaeth a dealltwriaeth yn yr uned hon ewch i'r adran 'Rhagor o wybodaeth' yng nghefn y llyfr log

Ticiwch os mai prawf ar-lein oedd yn profi'r wybodaeth orfodol ◯ Dyddiad

Ticiwch os mai prawf ysgrifenedig oedd yn profi'r wybodaeth orfodol ◯ Dyddiad

Ticiwch os mai prawf ysgrifenedig oedd y prawf gwybodaeth draws uned ◯ Dyddiad

Ticiwch os mai prawf ar-lein oedd y prawf gwybodaeth draws uned ◯ Dyddiad

# Nodiadau ychwanegol

## Uned 212: Darparu gwasanaethau eillio

Gall eich asesydd ddefnyddio'r gofod hwn am unrhyw sylwadau ychwanegol allai fod ganddyn nhw am eich gwaith.

| Sylwadau | Dyddiad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

## Cwblhau'r uned

Rhaid llofnodi'r adran hon unwaith y mae'r uned wedi'i chwblhau.

Rydym yn cadarnhau bod y dystiolaeth hon yn ddilys a bod yr asesiadau wedi'u cynnal o dan amodau penodedig, a bod yr holl feini prawf perfformiad, ystod a gofynion gwybodaeth hanfodol wedi'u bodloni ar gyfer yr uned hon.

Llofnod yr ymgeisydd: Dyddiad:

Llofnod Asesydd: Dyddiad:

Llofnod SAM (os oes sampl): Dyddiad:

Llofnod SAA (os oes sampl): Dyddiad:

# Rhagor o wybodaeth



Cheynes

sanaethau eillio

# Nodweddion a dosbarthiad gwallt

Rhaid i drinwyr gwallt a barbwyr allu gweithio gyda phob math o wallt yn amrywio o wallt syth i wallt cyrliog iawn, iawn.

| Gwallt syth | Gwallt tonnog | | | Gwallt tonnog-gyrliog | | Gwallt cyrliog tynn | Gwallt crych cyrliog | Gwallt crych | Gwallt patrwm -Z |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2A | 2B | 2C | 3A | 3B | 3C | 4A | 4B | 4C |



Math 1 - Gwallt Syth

- Main/Tenau - mae'r gwallt yn tueddu i fod yn feddal iawn, yn sgleiniog ac olewog, a gall fod yn anodd iddo gadw cwrl.
- Canolig - mae gan y gwallt lawer o sylwedd a swmp.
- Cwrs - mae'r gwallt fel arfer yn hynod o syth ac yn anodd ei gyrlio

Math 2 - Gwallt Tonnog

- Main/Tenau - mae gan y gwallt batrwm 'S' pendant. Fel arfer mae'n gallu cyflawni nifer o steiliau gwahanol.
- Canolig - mae'r gwallt yn tueddu i fod yn grychlyd ac yn gwrthsefyll ychydig i gael ei steilio.
- Cwrs - mae'r gwallt hefyd yn gwrthsefyll cael ei steilio ac fel arfer mae'n hynod o grychlyd; mae'n tueddu i fod â thonnau mwy trwchus.

Math 3 - Gwallt cyrliog

- Cyrlau rhydd - mae'r gwallt yn tueddu i fod â gwead cyfunol. Mae'n gallu bod yn drwchus a llawn gyda llawer o fywyd, gyda phatrwm 'S' pendant. Mae hefyd yn tueddu i fod yn grychlyd.
- Cyrlau tynn - hefyd yn tueddu i fod â gwead cyfunol, gyda maint canolig o gwrl.

Math 4 - Gwallt Cyrliog Iawn

- Meddal - mae'r gwallt yn tueddu i fod yn fregus iawn, wedi'i dorchi'n dynn ac mae ganddo batrwm cyrliog mwy diffiniedig.
- Gwrychog - hefyd yn fregus iawn ac wedi'i dorchi'n dynn; fodd bynnag mae'r patrwm cyrliog yn llai diffiniedig - mae ganddo siâp patrwm mwy fel "Z".

# Iechyd a diogelwch a deddfwriaeth arall

Mae'n hanfodol i chi wybod beth yw eich cyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch fel y'u diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n trafod rôl eich swydd. Dyma'r prif eitemau deddfwriaeth sy'n berthnasol i weithrediadau cyffredinol salonau ac, felly, i gyflogwyr a gweithwyr/hyfforddeion fel ei gilydd:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
- Rheoliadau Adrodd  ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
- Rheoliadau Gweithrediadau Trin â Llaw
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH)
- Rheoliadau Trydan yn y Gwaith
- Deddf Gwarchod yr Amgylchedd
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Gyflogedigion)
- Deddf Diogelu Data
- Cyfarwyddebau Amser Gweithio
- Rheoliadau Cynhyrchion Cosmetig
- Deddf Gwerthu Nwyddau
- Rheoliadau Gwerthu o Bell (noder: a ddisodlwyd gan y Rheoliadau Contractau Cwsmeriaid ym Mehefin 2014)
- Deddf Disgrifiadau Masnach
- Deddfwriaeth gwarchod cwsmeriaid
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd



Valua Vitaly/Shutterstock.com

# Arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy

Rhaid i chi wybod am y gwahanol fathau o ddulliau gweithio sy'n hyrwyddo arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy. Mae'r rhain yn ffurfio rhan o'r ystod gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer eich cymhwyster.

1. Lleihau gwastraff a rheoli gwastraff (ailgylchu, ailddefnyddio, gwaredu'n ddiogel)
2. Lleihau'r defnydd o ynni (sychwyr gwallt ynni effeithlon, goleuadau ynni isel, defnyddio paneli solar)
3. Lleihau'r defnydd o ddŵr ac o adnoddau eraill
4. Atal llygredd
5. Defnyddio eitemau y gellir eu taflu (tywelion sychu'n hawdd)
6. Defnyddio dodrefn wedi'u hailgylchu, eco gyfeillgar
7. Defnyddio paent isel mewn cemegau
8. Defnyddio cynhyrchion gwallt organig a rhydd o alergeddau
9. Defnyddio lliwyddion gwallt isel iawn mewn amonia
10. Defnyddio pecynnu cynhyrchion sy'n garedig wrth yr amgylchedd
11. Dewis cynhyrchion domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)
12. Annog teithiau i'r gwaith sy'n lleihau carbon



Wella

# Gwerthoedd ac ymddygiadau

Mae angen i drinwyr gwallt allu cynnal ymgynghoriadau gyda chleientiaid, arddangos y proffesiynoldeb, y gwerthoedd, yr ymddygiadau, y sgiliau cyfathrebu a'r arferion gweithio diogel sy'n gysylltiedig â'u rôl a gallu gweithio heb oruchwyliaeth i lefel uchel o gywirdeb, gyda sgiliau rhagorol gofalu am gleientiaid.

## Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd allweddol canlynol yn sail i ddarparu gwasanaethau yn y sector trin gwallt a barbwr:

1. Parodrwydd i ddysgu
2. Cwblhau gwasanaethau mewn amser sy'n hyfyw'n fasnachol
3. Cwrdd â safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant
4. Sicrhau bod hylendid personol ac amddiffyniad yn cwrdd â gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
5. Agwedd hyblyg tuag at waith
6. Gweithiwr tîm
7. Cynnal gofal cwsmeriaid
8. Agwedd gadarnhaol
9. Moeseg bersonol a phroffesiynol
10. Y gallu i hunan reoli
11. Sgiliau creadigrwydd
12. Sgiliau cyfathrebu llafar a di-eiriau da
13. Cynnal dulliau gweithio effeithiol, hylan a diogel
14. Cadw at gyfarwyddiadau'r gweithle, y cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr ar gyfer defnyddio cyfarpar, deunyddiau a chynhyrchion yn ddiogel



George Allen Penton/Shutterstock.com

## Ymddygiadau

Mae'r ymddygiadau canlynol yn sylfaen i ddarparu gwasanaethau yn y sector gwallt a gwaith barbwr. Mae'r ymddygiadau hyn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r salon ac o'r unigolyn.

1. Cwrdd â safonau ymddygiad y salon
2. Cyfarch y cleient yn barchus ac yn gyfeillgar
3. Cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddyn nhw deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu
4. Adnabod a chadarnhau disgwyliadau'r cleient
5. Trin y cleient yn gwrtais ac yn wasanaethgar bob amser
6. Cadw'r cleient wedi'i hysbysu a'i galonogi
7. Addasu'r ymddygiad i ymateb yn effeithiol i wahanol ymddygiadau cleientiaid
8. Ymateb yn brydlon i gleient sy'n ceisio cymorth
9. Dewis y ffordd fwyaf priodol o gyfathrebu gyda'r cleient
10. Gwirio gyda'r cleient eich bod wedi deall eu disgwyliadau'n llawn
11. Ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient
12. Caniatáu amser i'r cleient ystyried yr ymateb a rhoi esboniad pellach lle mae hynny'n briodol
13. Dod o hyd i wybodaeth yn gyflym fydd yn helpu'r cleient
14. Rhoi'r wybodaeth sydd ei angen ar y cleient am y gwasanaethau neu'r cynhyrchion sy'n cael eu cynnig gan y salon
15. Adnabod gwybodaeth y gallai'r cleient ei chael yn gymhleth a gwirio a ydyn nhw'n deall yn llawn
16. Esbonio'n glir i'r cleientiaid unrhyw resymau pam na ellir cwrdd â'u hanghenion neu ddisgwyliadau



CURAphotography/Shutterstock.com

# Rhestr termau

### Cyflyrau andwyol gwallt, croen a chroen y pen
Gall ffactorau'r gwallt, y croen neu groen y pen gyfyngu ar ba wasanaethau y gall cleient eu cael; er enghraifft, os oes gan gleient soriasis, yna efallai na fyddai hi'n ddoeth defnyddio llawer o gemegau llym ar y gwallt.

### Cyngor ac argymhellion
Awgrymu cynhyrchion ar gyfer eu defnyddio gartref a gwasanaethau ychwanegol. Sut y gall y cleient gynnal ei edrychiad a'r cyfnod amser rhwng gwasanaethau.

### Trwyth tynhaol
Cynnyrch megis hylif ôl-eillio sy'n lleddfu, yn glanhau ac yn cau mandyllau'r croen.

### Raselu gwrthlaw
Wynebwch y llafn i'r cyfeiriad cyferbyniol i chi a throwch eich llaw wyneb i waered.



### Haen unffurf sylfaenol
Mae pob adran o'r gwallt yn cael eu tynnu allan ar ongl o 90° drwy gydol y toriad a'u thorri i'r un hyd gyda siswrn.

### Haen unffurf sylfaenol
Mae pob adran o'r gwallt yn cael eu torri yr un hyd gyda siswrn.

### Ffordd o fyw cleient
Beth maen nhw'n ei wneud fel swydd, eu hobïau a'u diddordebau; hefyd eu hoedran, ac ati.

### Torri clwb
Y ffordd fwyaf sylfaenol o dorri adrannau o'r gwallt yw yn syth ar draws, cyflin â'r mynegfys a'r bys canol.

### Cynhyrchion tylino
Gall y rhain gynnwys cyflyrwyr arwyneb, cyflyrwyr treiddiol neu driniaethau croen y pen. Mae pob un o'r rhain ar gael fel cynhyrchion i'w golchi allan neu i'w gadael i mewn.

### Deddfwriaeth gwarchod cwsmeriaid
Mae hyn yn gwarchod cwsmeriaid rhag arferion gwerthu annheg.

### Gwrth-arwyddion
Pan fydd gan gleient wrth-arwyddion, mae'n golygu bod ganddo gyflwr neu arwydd gweladwy o fod wedi cael adwaith andwyol i feddyginiaeth, i gynnyrch neu i wasanaeth.

### Traws-heintiad
Pan fydd clefyd yn cael ei drosglwyddo o un person i'r llall, oherwydd hylendid gwael.

### Traws-blâu
Pan fydd pla o barasitiaid, fel llau pen, yn cael ei drosglwyddo o un person i'r llall.

### Technegau torri
Y rhain yw'r defnydd o siswrn dros grib, cliper dros grib ac atodion cliper.

### Dermatitis (a elwir weithiau'n 'dermatitis cyswllt')
Cyflwr croen sy'n gallu bod yn ddolurus, yn goch ac yn goslyd. Weithiau mae trinwyr gwallt a barbwyr yn dioddef o hyn, rhwng y bysedd, drwy ddefnyddio cemegau mewn cynhyrchion fel toddiannau pyrm a siampŵs. Gellir ei atal trwy ddefnyddio eli rhwystrol neu fenig, sychu'r dwylo'n iawn a defnyddio hufen llaw dda rhwng gwasanaethau.

### Manylu
Defnyddio clipwyr i greu llinell wallt gref wedi'i diffinio.

### Effleurage
Symudiad mwytho tyner.

### Offer trydanol
Sythwyr a sychwr gwallt

### Arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy
Blaenoriaethau sy'n lleihau niwed i'r amgylchedd a hefyd gwastraffu adnoddau.

### Siapiau blew'r wyneb (enghreifftiau yn unig):

- **Angor**
  Barf wedi'i siapio fel angor - mae'n rhedeg o ganol yr wefus isaf ac o gwmpas ac i fyny'r ên.
- **Rheilen llenni**
  Barf gul yn dilyn yr ên.
- **Locsyn bwch gafr**
  Barf gul sy'n cylchu'r geg a'r ên.
- **Mwstas llinell y wefus**
  Mwstas cul sy'n dilyn llinell naturiol yr wefus uchaf.
- **Mwstas Mecsicanaidd**
  Mwstas sy'n dilyn llinell naturiol yr wefus uchaf ac sy'n ymestyn tuag at yr ên.

- **Mwstas pensil**
  Mwstas llorweddol tua lled pensil
- **Pharaoh**
  Barf sy'n cychwyn o waelod yr ên. Gall fod unrhyw hyd.
- **Mwstas brig to**
  Mwstas sy'n ymestyn o dan y trwyn i ffurfio siâp 'saeth' syth.

- **Bonion blew**
  Tyfiant barf lawn dros nifer o ddyddiau, wedi'i dacluso

### Ffactor
Elfen allai gyfrannu at y canlyniad terfynol ac y mae'n rhaid ei chymryd i ystyriaeth, cyn ac yn ystod y gwasanaeth torri.

### Pylu
Yn cael ei ddefnyddio i flendio gwallt byr i'r llinell gwddf, neu i greu llinell wallt naturiol.



### Top fflat
Siâp fflat sgwâr yw hwn, yn gyffredinol yn defnyddio cliper dros grib neu siswrn dros grib. Mae'r toriad yn orffeniad sgwâr allai fod o wahanol hydoedd gan ddibynnu ar anghenion y cleient. Ar gyfer top fflat, yn wahanol i lawer o doriadau eraill lle rydych chi'n cael gwared ar y corneli, er mwyn cyflawni'r gorffeniad sgwâr rhaid cadw'r corneli.
Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r pwynt uchaf o'r penglog gan y bydd hyn yn pennu eich man cychwyn. Gellir cyflawni'r toriad hwn drwy ddefnyddio 'topyr fflat' neu grib cliper, ond mae osgo eich corff a'r llygad am fanylion yn hanfodol i gyflawni'r edrychiad sgwâr perffaith.

### Raselu llaw flaen
Y bawd wedi'i osod ar y tu mewn i'r llafn gyda'r llafn yn wynebu i lawr.

### Tylino ffrithiant
Symudiad rhwbio trwyadl gan ddefnyddio padiau'r bysedd. Mae'n gynhyrfiol yn hytrach nag ymlaciol ac nid yw'n cael ei wneud bob amser. Dim ond am ychydig funudau y mae'n cael ei wneud, gan weithio o'r blaen i'r cefn.



### Graddoli
Mae haenau mewnol hyd y gwallt yn fyrrach na siâp yr amlinell, fel y gwelir yma.

### Llinell gwddf llawn
Gwallt hyd coler.

### Canllawiau
Siâp neu linell y byddwch chi'n ei dorri ac yn parhau i'w ddilyn.

### Nodweddion gwallt
Mae gwallt pob person wedi'i lunio'n wahanol oherwydd patrymau twf gwallt, pa mor doreithiog neu brin yw'r gwallt (dwysedd) ac a yw cudynnau'n fain, yn ganolig neu'n fras (gwead) ac ati.

### Dosbarthiad gwallt
Mae gwallt wedi'i rannu mewn pedwar grŵp gwahanol - gwallt syth, tonnog, cyrliog a chyrliog iawn.

### Deddfwriaeth iechyd a diogelwch
Rheolau a rheoliadau sy'n eich cadw chi a'ch cleientiaid yn ddiogel yn y gwaith.

### Heintiau
Gall haint arwain at groen coch a llidus, neu ddatblygu crawn. Os ydych yn amau bod gan eich cleient haint, dylech roi gwybod i'ch goruchwyliwr.

### Plâu
Cyflwr lle mae parasitiaid, fel llau pen, yn mynd ar ben a chorff unigolyn ac yna'n byw oddi ar y maetholion a geir yn eu croen, eu gwaed a'u meinweoedd.

### Edrychiad
Y gwallt gorffenedig, siâp y farf a'r mwstas, a siapio'r aeliau.

### Cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
Canllawiau penodol sy'n cael eu cyhoeddi gan wneuthurwyr neu gyflenwyr o gynhyrchion neu gyfarpar mewn perthynas â'u defnyddio yn ddiogel ac yn effeithiol.

### Barf rannol
Unrhyw flew wyneb nad yw'n farf lawn neu'n fwstas.

### Cyflyrwyr treiddiol

Cynhyrchion wedi'u dylunio i drwsio a chryfhau strwythur ffisegol y gwallt.

### Petrissage
Symudiad tylino araf a chadarn.

### Steil gwallt pompadour
Defnyddio brwsh crwn i gyflawni codiad gwraidd, dyrchafiad a thrwch drwy ben toriad gwallt gydag ochrau daclus dros ben.

### Powdwr
Caiff powdwr talcwm ei ddefnyddio i dawelu'r croen ac i amsugno gweddill y lleithder a'r olew.

### Cylchol
Symudiad cylchol cadarn gan ddefnyddio padiau'r bysedd dros arwyneb croen yr wyneb.

### Siswrn dros grib
Torri'r gwallt gan ddefnyddio crib fel canllaw i'r siswrn. Yn dda ar gyfer blendio gwallt byr i mewn i'r gwddf neu uwchben asgwrn y gwegil, meddalu a manylu llinellau gwallt.

### Tensiynu croen
Ymestyn y croen i ganiatáu i'r llafn symud yn esmwyth dros y croen.

### Ymlaciwr sodiwm
Y prif gynhwysyn actif yw sodiwm hydrocsid. Mae ymlacwyr sodiwm hydrocsid yn cael eu defnyddio i dorri bondiau'r gwallt i lawr.

### Eillio sbwng
Yn cael ei wneud ar farf gwrs ystyfnig yn unig. Rhoi sbwng glân, di-haint mewn dŵr poeth a'i fwytho dros y croen yn union cyn yr eillio.

### Haen sgwâr
Byddai'r dechneg hon yn cael ei defnyddio i gyflawni edrychiad gwrywaidd. Mae haenau'n cael eu torri'n fertigol drwy dynnu'r gwallt i ongl o 90° o'r pen a thorri llinell sgwâr yn fflat i'r pen. (ddim yn dilyn amlinell siâp y pen fel y byddech chi'n ei wneud am edrychiad unffurf).

### Sterileiddiad
Dinistrio micro-organebau yn llwyr.

### Powdrau steilio
I roi gorffeniad pŵl, gafael ac ychwanegu gwead.

### Cynhyrchion cyflyru arwyneb
Cynhyrchion wedi'u dylunio i ychwanegu lleithder i'r gwallt er mwyn gwella sglein a gwead.

### Llinell bafr daprog
Drwy gael gwared ar y pwysau byddwch yn datgelu siâp amlinell.

### Taprog
Mae tapro'n dda ar gyfer manylu llinellau gwallt, meddalu edrychiad a chael gared ar bwysau.

### Tapotement
Ffurf o dylino wyneb. Mae'n adfywio ac yn gwella cylchrediad meinwe cyhyrol yr wyneb. Mae'n cael ei wneud drwy ddefnyddio ymylon y bysedd neu'r dwylo gyda symudiadau tapio ysgafn.

### Profion
Gall profion fod ar y gwallt neu ar groen y pen. Enghraifft o brawf croen fyddai'r hyn sy'n cael ei wneud cyn gwasanaeth lliw i sicrhau nad oedd gan gleient alergedd i'r cynnyrch; gallai prawf gwallt fod yn wiriad anghydnawsedd i weld  a oes unrhyw halwynau metelaidd yn y gwallt.

### Tonigau
Yn cael eu defnyddio fel hylif ar ôl eillio i groen y pen a'r gwallt.

### Offer a chyfarpar
Siswrn, clipwyr, atodion cliper a thrimwyr, er mwyn ennill edrychiad gorffenedig.

### Trimwyr
Clipwyr bach gyda llafnau llai i greu toriad agosach, mwy main gyda mwy o ddiffiniad a manylion.

### Dosbarthiad pwysau
Cyflawni cydbwysedd neu siâp gwastad o fewn y toriad gwallt i ganiatáu y canlyniad cywir yn y pen draw.

125006128
TL700203



ISBN 978-0-85193-391-7

9 780851 933917